------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 – Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Llun, 16 Ionawr 2023

Amser: 12.15


I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru


---

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau.

12.15

## 2 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 (gwariant mewn perthynas â chyfiawnder) ynghyd â gwaith craffu cyffredinol: Sesiwn dystiolaeth gyda'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

12.15 - 13.45 (Tudalennau 1 - 42)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-23 - Papur 1 – Briff ymchwil [Saesneg yn unig]

LJC(6)-02-23 - Papur 2 – Papur gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 21 Rhagfyr 2022

LJC(6)-02-23 - Papur 3 – Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 23 Tachwedd 2022

## Egwyl

13.45 - 13.50

## 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

13.50 - 13.55 (Tudalennau 43 - 44)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-23 - Papur 4 - Adroddiad drafft

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

3.1 **SL(6)302 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygio) 2022**

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

3.2 **SL(6)311 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2023**

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

13.55 – 14.00

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

4.1 **SL(6)301 – Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) 2023**

(Tudalennau 45 – 46)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-23 – Papur 5 – Adroddiad drafft

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Cadarnhaol**

4.2 **SL(6)307 – Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2022**

(Tudalennau 47 – 50)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-23 – Papur 6 – Adroddiad drafft

LJC(6)-02-23 – Paper 7 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Llywydd, 13 Rhagfyr 2022

## 5 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes

14.00 – 14.05

### 5.1 SL(6)299 – Rheoliadau Hadau (Cywerthedd) (Diwygio) (Cymru) 2022

(Tudalennau 51 – 53)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-23 – Papur 8 – Adroddiad

LJC(6)-02-23 – Papur 9 – Ymateb Llywodraeth Cymru

## 6 Datganiadau Ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

14.05 – 14.10

### 6.1 WS-30C(6)022 – Rheoliadau Iechyd Planhigion a'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio) 2022

(Tudalennau 54 – 59)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-23 – Papur 10 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 20 Rhagfyr 2022

LJC(6)-02-23 – Papur 11 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 20 Rhagfyr 2022

LJC(6)-02-23 – Papur 12 – Sylwadau

## 7 Fframweithiau cyffredin

14.10 – 14.15

### 7.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith: Fframwaith cyffredin Gwastraff ac Adnoddau

(Tudalen 60)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-23 - Papur 13 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith, 4 Ionawr 2023

## 8 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

14.15 - 14.20

**8.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Cynhyrchu Organig (Diwygio) (Rhif 2) 2022**

(Tudalennau 61 - 64)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-23 - Papur 14 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd, 11 Ionawr 2023

LJC(6)-02-23 - Papur 15 – Llythyr at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd, 7 Rhagfyr 2022

## 9 Papurau i'w nodi

14.20 - 14.25

**9.1 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Busnes at Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai: Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol**

(Tudalennau 65 - 68)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-23 - Papur 16 – Llythyr gan y Pwyllgor Busnes at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai: Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol, 11 Ionawr 2023

LJC(6)-02-23 - Papur 17 – Llythyr gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai at y Pwyllgor Busnes, 8 Rhagfyr 2022

**9.2 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)**

(Tudalennau 69 - 70)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-23 – Papur 18 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 12 Ionawr 2023

## 10 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

14.25

## 11 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 (gwariant mewn perthynas â chyfiawnder) ynghyd â gwaith craffu cyffredinol: Trafod y dystiolaeth

14.25 - 14.40

## 12 Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)

14.40 - 14.55 (Tudalennau 71 - 92)

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol: Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-23 - Papur 19 - Nodyn cyngor cyfreithiol [Saesneg yn unig]

LJC(6)-02-23 – Papur 20 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 12 Ionawr 2023

LJC(6)-02-23 – Papur 21 – Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 14 Rhagfyr 2022

LJC(6)-02-23 - Papur 22 - Llythyr i'r Pwyllgor Busnes, 21 Rhagfyr 2022

LJC(6)-02-23 – Papur 23 – Llythyr at Weinidogion Llywodraeth y DU, 21 Rhagfyr 2022

## 13 Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3 a Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Diogelwch Ar-lein

14.55 - 15.05 (Tudalennau 93 - 97)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-23 - Papur 24 - Nodyn cyngor cyfreithiol [Saesneg yn unig]

## 14 Bil Amaethyddiaeth (Cymru): Adroddiad drafft

15.05 - 15.30 (Tudalennau 98 - 116)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-23 - Papur 25 - Adroddiad drafft (I ddilyn)

LJC(6)-02-23 - Papur 26 - Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 16 Rhagfyr 2022

LJC(6)-02-23 - Papur 27 - Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 7 Rhagfyr 2022

LJC(6)-02-23 - Papur 28 - Llythyr at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 25 Tachwedd 2022

## 15 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar gyfer Bil Banc Seilwaith y DU: Adroddiad drafft

15.30 - 15.40 (Tudalennau 117 - 123)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-23 - Papur 29 - Adroddiad drafft

## 16 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Technoleg Genetig (Bridio Manwl): Adroddiad drafft

15.40 - 15.50 (Tudalennau 124 - 125)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-23 - Papur 30 - Adroddiad drafft (I ddilyn)

LJC(6)-02-23 - Papur 31 - Llythyr gan y Pwyllgor Busnes at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 11 Ionawr 2023

## 17 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Esgyll Siarcod: Adroddiad drafft

15.50 – 16.00 (Tudalennau 126 – 132)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-23 – Papur 32 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

## 18 Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru): Trafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor mewn Pwyllgor (yn amodol ar y ddadl Ystyriaeth Gychwynnol)

16.00 – 16.15 (Tudalennau 133 – 141)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-23 – Papur 33 – Briffio [Saesneg yn unig]

## 19 Adroddiad Monitro

16.15 – 16.25 (Tudalennau 142 – 155)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-23 – Papur 34 – Adroddiad Drafft [Saesneg yn unig]

## 20 Cytundebau rhyngwladol

16.25 – 16.30 (Tudalennau 156 – 159)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-23 – Papur 35 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**Dyddiad: 16 Ionawr 2022**

**Teitl: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24**

1. **Cyflwyniad**

1.1. Mae'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad yn mynd i gyfarfod y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 16 Ionawr i roi tystiolaeth fel rhan o waith y Pwyllgor i graffu ar gynigion Cyllideb Ddrafft y Llywodraeth ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, sef 2023-24.

1.2. Yn ei lythyr ar 22 Tachwedd i'r Cwnsler Cyffredinol, amlinellodd y Cadeirydd nifer o feysydd lle'r hoffai'r Pwyllgor gael mwy o fanylion am wariant arfaethedig Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyfiawnder a hygyrchedd cyfraith Cymru, fel y nodir yn yr Atodiad i'r llythyr. Mae'r papur hwn yn rhoi'r manylion ychwanegol hynny gan ddefnyddio'r penawdau a ddefnyddir yn yr Atodiad i'r llythyr.

2. **Cyffredinol**

2.1. Mae'r atodlen yn Atodiad 1 yn cynnwys dadansoddiad o gynigion y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24 yn ôl Prif Grŵp Gwariant, Maes Rhaglen Wariant a Llinell Wariant yn y Gyllideb a gaiff eu defnyddio i gyllido camau gweithredu arfaethedig sy'n ymwneud â chyfiawnder. Mae'r atodlen yn rhoi disgrifiad naratif o'r gweithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder a gyllidir gan bob Llinell Wariant yn y Gyllideb, ac yn cymharu'r dyraniad ym mlwyddyn ariannol 2023-24 â'r flwyddyn ariannol flaenorol.

2.2. Yn sail i Gyllideb Ddrafft 2023-24 mae dewisiadau anodd, sy'n cynnwys llawer o doriadau cyllid. Mae Gweinidogion wedi gwneud dewisiadau anodd ac mae'n rhaid iddynt drosglwyddo toriadau mewn cyllid mewn meysydd lle na fyddent wedi dymuno gwneud hynny fel arfer.

2.3. Er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru i warchod meysydd allweddol, cynhaliwyd ymarfer ailflaenoriaethu i ryddhau cyllid o gynlluniau presennol ac aildargedu'r adnoddau prin at y meysydd lle ceir yr angen mwyaf. Y bwriad yw sicrhau bod pob punt a fuddsoddir yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf. Yn anffodus, cydnabyddir y bydd hyn yn cael effaith negyddol ar y meysydd hynny lle ailflaenoriaethwyd cyllid.

2.4. Drwy ddefnyddio cyllid a ryddhawyd yn sgil yr ymarfer ailflaenoriaethu, ynghyd â rhai newidiadau cadarnhaol cyfyngedig i'n setliad cyffredinol o ganlyniad i Ddatganiad yr Hydref, mae Llywodraeth Cymru wedi targedu dyraniadau ychwanegol i warchod gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen a chyflawni ymrwymiadau ein Rhaglen Lywodraethu, gan helpu'r rhai y mae'r argyfwng

costau byw yn effeithio arnynt a chefnogi ein heconomi drwy gyfnodau o ddirwasgiad.

2.5. Gan droi at lefel yr wybodaeth a ddarperir am y gwariant arfaethedig ar weithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder yn y Gyllideb Ddrafft, "Protocol Proses y Gyllideb" ("y Protocol") rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru, y cytunodd y Senedd arno ar 21 Mehefin 2017, yw'r ddogfen sy'n amlinellu'r ddealltwriaeth rhwng y Pwyllgor Cyllid a Llywodraeth Cymru ynghylch materion cyllidebol ar hyn o bryd. Yn unol â'r Protocol, mae'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24 yn amlinellu cynigion y gyllideb ar gyfer pob portffolio ar lefel Llinell Wariant yn y Gyllideb.

2.6. Mae gweithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder yn trawstorri portffolios a chaiff cyllid ei ddyrannu i'r gweithgarwch hwn o sawl Llinell Wariant yn y Gyllideb ar draws y Prif Grwpiau Gwariant, fel y nodir yn yr atodlen yn Atodiad 1. Mewn llawer o achosion, bydd y rhan fwyaf o'r gwariant ar gostau staff na chaiff eu hamser ei rannu'n union rhwng gweithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder a gweithgarwch arall, neu ragolygon gwariant na ellir eu dadgyfuno yn y modd hwn. Felly, yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24, nid yw lefel y manylder ynghylch dyraniadau'r gyllideb ar gyfer gweithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder yn mynd ymhellach na lefel Llinellau Gwariant yn y Gyllideb. Mae'r dull hwn yn gyson â'r Protocol ac felly mae strwythur a chyflwyniad y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2022-23 yn gyson â chyllidebau blynyddoedd blaenorol.

2.7. Bu newid i'r disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb sy'n cefnogi rhaglen trawsnewid cyfiawnder Llywodraeth Cymru. Yn y gorffennol, hon oedd y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer y gyllideb a ddyrannwyd i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru ("Comisiwn Thomas"), ond mae bellach yn dyrannu'r gyllideb sy'n cyllido'r Is-adran Polisi Cyfiawnder er mwyn datblygu gweithgarwch sy'n cefnogi'r agenda trawsnewid cyfiawnder yng Nghymru. Mae hyn, yn bennaf, yn cynnwys gweithredu argymhellion Comisiwn Thomas ac ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i fynd ar drywydd yr achos dros ddatganoli plismona a chyfiawnder, ynghyd â chydgysylltu arweinyddiaeth ym maes gweithgarwch cyfiawnder ym mhob rhan o'r Llywodraeth drwy gefnogi Is-Bwyllgor y Cabinet ar Gyfiawnder. Felly, mae enw'r Llinell Wariant yn y Gyllideb wedi newid o "Comisiwn Cyfiawnder yng Nghymru" i "Trawsnewid Cyfiawnder" er mwyn adlewyrchu diben y dyraniad cyllidebol yn well.

2.8. Costau staffio yw'r costau a delir drwy'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Trawsnewid Cyfiawnder yn bennaf. Mae hyn yn cynnwys costau staff sy'n gweithio i weithredu argymhellion adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar ddiwygio tribiwnlysoedd datganoledig Fodd bynnag, disgwylir hefyd i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb hon gael ei defnyddio i gomisiynu gwasanaethau allanol fel gwaith ymchwil neu ddadansoddi. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi gwahodd dyfynbrisiau am waith i gynnal asesiad o'r angen am brentisiaethau cyfreithwyr yng Nghymru. Disgwylir i gostau'r gwaith hwn gael eu

talu gan ddefnyddio Llinell Wariant yn y Gyllideb Trawsnewid Cyfiawnder dros flynyddoedd ariannol 22/23 a 23/24.

2.9. Mae'r Protocol yn cydnabod bod proses y gyllideb yn esblygu ac y bydd y ffordd y caiff cynigion y gyllideb eu cyflwyno yn newid. Mae mwy y gellir ei wneud bob amser i wella tryloywder. Fel y gwŷr y Pwyllgor, rydym yn bwriadu cyflwyno adroddiad blynyddol sy'n amlinellu cynnydd yn erbyn ein rhaglen waith *Sicrhau Cyfiawnder i Gymru*. Fel rhan o hyn, rydym yn parhau i ystyried a oes unrhyw ffyrdd y gallwn wella manylder yr wybodaeth y gallwn ei rhoi am wariant ar gyfiawnder o fewn y llywodraeth.

## 3. Sicrhau Cyfiawnder i Gymru

3.1. Gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth am wariant arfaethedig ar Gyngor Cyfraith Cymru. Er i Lywodraeth Cymru weithio gyda'r sector cyfreithiol i sefydlu Cyngor Cyfraith Cymru, mae'r Cyngor yn gweithio'n annibynnol ac nid yw'n cael unrhyw gyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd sicrhau bod gan y Cyngor Cyfraith ymreolaeth lwyr i benderfynu ar ei raglen waith ei hun a'i chyflawni. O ganlyniad, nid yw Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am unrhyw wariant ar y gweithgarwch hwn. Felly, nid oes modd rhoi dadansoddiad o'i wariant arfaethedig ar gyfer 2023-24. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r Cyngor Cyfraith a chaiff diweddariad ar y gweithgarwch hwnnw ei gynnwys yn yr adroddiad blynyddol Sicrhau Cyfiawnder i Gymru.

3.2. Ar wahân i hynny, mae Sicrhau Cyfiawnder i Gymru yn amlinellu blaenraglen waith uchelgeisiol sy'n cynnwys 59 o gamau gweithredu mewn 10 maes thematig. Er y bydd llawer o'r gweithgareddau hyn wedi dod i ben erbyn diwedd 2023-24, mae ffocws tymor hwy i gamau gweithredu eraill. Fel y nodwyd uchod, rydym yn bwriadu llunio adroddiad blynyddol sy'n amlinellu cynnydd yn erbyn y rhaglen waith hon ac rydym yn parhau i ystyried i ba raddau y gallwn roi manylion ystyrlon am wariant hyd yma a gwariant arfaethedig yn y dyfodol.

3.3. Mae'r atodlen yn Atodiad 1 yn nodi dyraniadau gwariant arfaethedig yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2022-23 ar raglenni cyfiawnder mewn partneriaeth â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'r rhain yn cynnwys y Glasbrintiau Cyfiawnder Menywod a Chyfiawnder Ieuenctid, y Cytundeb Partneriaeth ar gyfer Iechyd mewn Carchardai ac addysg troseddwyr.

3.4. Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Trawsnewid Cyfiawnder a nodir yn yr atodlen yn Atodiad 1 yn cyllido'r prosiect diwygio tribiwnlysoedd. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi egwyddor casgliadau Comisiwn y Gyfraith i ddiwygio tribiwnlysoedd Cymru a thribiwnlysoedd datganoledig eraill yng Nghymru ac roedd *Sicrhau Cyfiawnder i Gymru* yn nodi ein bwriad i wneud diwygiadau strwythurol i dribiwnlysoedd datganoledig er mwyn creu system fodern o dribiwnlysoedd i Gymru. Rhaid cael deddfwriaeth sylfaenol er mwyn rhoi system unedig, newydd o dribiwnlysoedd ar waith. Mae amserlen y ddeddfwriaeth honno

yn dibynnu ar ei phrosesau ar wahân ei hun ac rydym yn gwneud gwaith paratoi cyn i'r ddeddfwriaeth honno gael ei hamserlennu.

4. **Dyfodol Cyfraith Cymru**

4.1. Fel yr eglurwyd yn fy llythyr ar 22 Chwefror, mae ein gwaith i gyflawni'r rhaglen ddeddfwriaethol yn elfen o waith y Llywodraeth yn ei chyfanrwydd ac mae'r un peth yn wir am raglen hygyrchedd y gyfraith. Caiff cyfanswm y costau cyffredinol, gan gynnwys costau'r gwaith ar y Bil, eu talu gan ddefnyddio cyllid o sawl portffolio fel rhan o weithgarwch deddfwriaethol ehangach y sefydliad. Cafodd costau dangosol y staff ychwanegol roedd eu hangen i gynyddu capasiti drafftio a chyfieithu, yn ogystal â staff eraill i weithio ar y prosiectau anneddfwriaethol, eu nodi yn y Memorandwm Esboniadol i Fil Deddfwriaeth (Cymru).

4.2. Yn fy adroddiad blynyddol diweddar ar raglen “Dyfodol Cyfraith Cymru”, eglurais fod ein gwaith cynnar ar ddeall rôl dysgu peirianyddol a deallusrwydd artiffisial wedi dangos bod modd defnyddio technoleg newydd i helpu i wneud gwybodaeth am y gyfraith yn fwy hygyrch ac yn haws ei deall wrth ymdrin â materion penodol (fel rhwymedigaethau treth neu hawliau tai).

4.3. Rydym wedi dyrannu swm dangosol o £350,000 yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24 i Ganolfan Bedwyr ym Mhrifysgol Bangor ar gyfer gwaith ar dechnoleg iaith, sy'n cynnwys cyfieithu peirianyddol. Defnyddir rhan o'r cyllid hwn i barhau i gasglu data ar hyfforddiant er mwyn datblygu technoleg cyfieithu peirianyddol parth-benodol ar gyfer y parth cyfiawnder - gwaith a ddechreuwyd gennym yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23.

4.4. Mae gwaith i anodi cyfreithiau Cymru a gyhoeddir ar wefan legislation.gov.uk ar gam cynnar ond mae'n mynd rhagddo'n dda. Hyd yma, mae'r prosiect wedi canolbwyntio'n bennaf ar weithio gyda legislation.gov.uk i ddatblygu a phrofi'r swyddogaeth newydd ac ymgymryd â'r hyfforddiant gofynnol.Fodd bynnag, yn ystod y ddau fis cyntaf ar ôl i'r prosiect gael ei roi ar waith yn llawn, mae'r tîm bach o fewn Llywodraeth Cymru wedi diweddaru holl Ddeddfau Senedd Cymru yn y ddwy iaith ac mae bellach wedi dechrau ar Ddeddfau'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae tri aelod o staff ar radd Swyddog Gweithredol ac un aelod o staff ar radd Swyddog Gweithredol Uwch wedi cael hyfforddiant i weithio ar anodi, ac maent yn gwneud y gwaith hwn ochr yn ochr â dyletswyddau eraill, gwaith sy'n gysylltiedig â llunio, cofrestru a chyhoeddi is-ddeddfwriaeth yn bennaf. Rydym yn treialu nifer o ffyrdd o weithio er mwyn sicrhau y gallwn gynnal y cynnydd ym maes anodi a bod y staff yn datblygu'r ystod o sgiliau sydd eu hangen i wneud y gwaith hwn yn effeithiol, ond rwyf yn hapus iawn â'r cynnydd a wnaed hyd yma. Byddaf yn sicrhau bod y Senedd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am eu gwaith.

**Atodiad 1**

## Cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 a'r adnoddau a ddyrennir i weithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder

| MEG[1] | AGA | BEL | Dyraniad £000oedd 22-23 | Dyraniad Dangosol 23-24 | Gweithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder a gyllidir yn ôl BEL |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | Cyrff a Gwasanaethau Allanol | Trawsnewid Cyfiawnder | 490 | 480 | Cydgysylltu'r rhaglen Trawsnewid Cyfiawnder ar draws y Llywodraeth a'r ymateb i argymhellion y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, cefnogi gwaith ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar ddatganoli cyfiawnder, datblygu'r sector cyfreithiol gan gynnwys ymgysylltu â Chyngor Cyfraith Cymru, gwneud gwaith mewn perthynas â Thribiwnlysoedd Cymru gan gynnwys diwygiadau yn unol ag adolygiad Comisiwn y Gyfraith o dribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru. |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | Cyrff a Gwasanaethau Allanol | Tribiwnlysoedd | 4,193 | 4,110 | Gweinyddu a chefnogi Tribiwnlysoedd Cymru drwy Uned Tribiwnlysoedd Cymru. |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | Rhaglenni Canolog | Argyfyngau Sifil a Diogelwch Gwladol | 0 | 0 | Gwrthderfysgaeth, troseddau cyfundrefnol difrifol. Nid oes cyllideb wedi'i neilltuo i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ac nid yw wedi'i chynnwys yn nhablau'r Gyllideb Ddrafft. Mae unrhyw wariant yn ystod blynyddoedd blaenorol wedi'i reoli o fewn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu. |
| Cyllid a Llywodraeth Leol | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru | 4,339 | 4,339 | Er bod gan Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi (HMIP) ddyletswydd statudol i arolygu gofal iechyd a chamddefnyddio sylweddau mewn carchardai yng Nghymru a Lloegr, mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn bodoli rhwng HMIP ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), sy'n golygu y gall AGIC fynd gyda HMIP wrth iddi gynnal arolygiadau cyffredinol yng ngharchardai'r sector cyhoeddus. Mae AGIC yn canolbwyntio ar safonau ansawdd a diogelwch mewn carchardai a threfniadau |

[1] "MEG": Prif Grŵp Gwariant, "SPA": Maes Rhaglen Wariant, "BEL": Llinell Wariant yn y Gyllideb.

| MEG[1] | AGA | BEL | Dyraniad £000oedd 22-23 | Dyraniad Dangosol 23-24 | Gweithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder a gyllidir yn ôl BEL |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | llywodraethu byrddau iechyd yng Nghymru i ddarparu gwasanaethau iechyd mewn carchardai.[2] |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol | Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol | 16,886 | 17,316 | <u>Hawliau Dynol</u>[3]<br>Caiff gwaith ei wneud mewn perthynas â'r pum prif faes gweithredu:<br>• gwaith deddfwriaethol paratoadol;<br>• datblygu canllawiau Hawliau Dynol;<br>• adolygu Rheoliadau Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru;<br>• cynnwys Hawliau Dynol fel rhan o brosesau Asesiadau Effaith Integredig;<br>• cynyddu Ymwybyddiaeth o Hawliau Dynol.<br><br>Caiff gwaith ar y materion hyn ei gyflawni'n bennaf gan staff presennol o fewn y Tîm Hawliau Dynol newydd.<br><br><u>Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol</u><br>Un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu i sicrhau bod elfennau cyfiawnder Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn gadarn a mynd i'r afael â'r materion hyn â'r heddlu a'r llysoedd. Mae'r Cynllun yn cynnwys pennod benodol ar drosedd a chyfiawnder, ac rydym hefyd wedi gweithio gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol ar Gynllun Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol arall i Gymru.<br><br><u>Troseddau Casineb</u><br>Cyllido Canolfan Gymorth Troseddau Casineb Cymru, a gaiff ei rhedeg gan Cymorth i Ddioddefwyr, er mwyn rhoi cymorth a gwasanaethau eirioli drwy'r system cyfiawnder troseddol i bawb sy'n dioddef troseddau casineb yng Nghymru. Cyllido ymgyrch cyfathrebu yn erbyn troseddau casineb, sef Mae Casineb yn Brifo Cymru, er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb ac annog mwy o |

[2] Dyrannwyd cyllid o fewn y gyllideb ddrafft ar gyfer y Llinell Wariant yn y Gyllideb honno i weithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder.
[3] Gweler troednodyn 2.

Tudalen y pecyn 34

| MEG[1] | AGA | BEL | Dyraniad £000oedd 22-23 | Dyraniad Dangosol 23-24 | Gweithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder a gyllidir yn ôl BEL |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | bobl i roi gwybod amdanynt. Ymchwilio i waith ataliol gyda chyflawnwyr. |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | Cefnogi Cymunedau | Partneriaethau Cymdeithasol | 806 | 861 | Mae dyraniad y gyllideb yn cwmpasu ystod eang o waith o fewn y Gyfarwyddiaeth Partneriaeth Gymdeithasol, Cyflogadwyedd a Gwaith Teg, gan gynnwys ymrwymiadau ehangach y Rhaglen Lywodraethu a'r costau staff cysylltiedig. Mae'n darparu'r adnoddau ar gyfer gweithgarwch caethwasiaeth fodern sy'n ymwneud â chyfiawnder.[4] |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | Cefnogi Cymunedau | Incwm Sylfaenol | 5,000 | 12,200 | Mae dyraniad y gyllideb yn cyllido gwaith i ystyried sut y gallai plant sy'n mynd i mewn i'r ddalfa neu sy'n gadael y ddalfa gael eu cynnwys yn y cynllun peilot incwm sylfaenol i'r rhai sy'n gadael gofal.[5] |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | Gwasanaethau Eirioli | Gwasanaethau Cynghori | 11,875 | 11,675 | O dan y Cynllun Gweithredu o ran Gwybodaeth a Chyngor: drwy'r Gronfa Gynghori Sengl, defnyddio grant i gyllido fframwaith o wasanaethau cynghori integredig sydd wedi'u cynllunio'n strategol ar gyfer lles cymdeithasol; gweithredu'r Fframwaith Ansawdd Cyngor; a hyrwyddo rhwydweithio fel ffordd o helpu pobl i ddeall yn well sut mae arfer eu hawliau unigol. |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol | Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol | 7,875 | 8,005 | Arwain cyfeiriad strategol a gwaith i weithredu Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, sy'n cynnwys amcan i 'Gynyddu'r ffocws ar ddwyn y rhai sy'n cam-drin i gyfrif a chefnogi'r rhai a all ymddwyn yn gamdriniol neu'n dreisgar i newid eu hymddygiad ac osgoi troseddu'. |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | Glasbrintiau Troseddwyr Benywaidd a Chyfiawnder Ieuenctid | Glasbrintiau Troseddwyr Benywaidd a Chyfiawnder Ieuenctid | 1,075 | 1,075 | Cyfraniadau Llywodraeth Cymru tuag at y Glasbrint Cyfiawnder Menywod a Chyfiawnder Ieuenctid i Gymru. |

[4] Gweler troednodyn 2.
[5] Gweler troednodyn 2.

| MEG[1] | AGA | BEL | Dyraniad £000oedd 22-23 | Dyraniad Dangosol 23-24 | Gweithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder a gyllidir yn ôl BEL |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfiawnder Cymdeithasol | Cymorth Cymunedol a Diogelwch | Cymorth Cymunedol a Diogelwch | 22,625 | 22,998 | Cyllid ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. |
| Yr Economi | Busnes Cymru / Entrepreneuriaeth a'r Economi Ranbarthol | Busnes Cymru | 17,116 | 26,559 | Cymorth busnes pwrpasol i'r sector cyfreithiol yng Nghymru drwy wasanaeth Busnes Cymru gydag ymyriadau sy'n canolbwyntio ar yr heriau sy'n eu hwynebu ym maes recriwtio a chadw staff a chydnerthedd.[6] |
| Yr Economi | Cyflogadwyedd Gan Gynnwys y Warant Pobl Ifanc | Cyflogadwyedd Gan Gynnwys y Warant Pobl Ifanc | 90,936 | 83,758 | Gweithredu'r argymhellion a wnaed yn adolygiad David Hanson o addysg troseddwyr.[7] |
| Yr Economi | Sectorau a Busnes | Tasglu'r Cymoedd | 100 | 100 | Gwasanaethau ataliol a all ein helpu gyda chyfiawnder ieuenctid, gan gynnwys tlodi plant a thlodi bwyd.[8] |
| Yr Economi | Sgiliau | Cymunedau am Waith | 3,972 | 23,034 | Gwasanaethau ataliol a all ein helpu gyda chyfiawnder ieuenctid. Darparu gwasanaethau mentora a hyfforddiant dwys ar gyfer cyflogaeth i'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur.[9] |
| Yr Economi | Prentisiaethau | Prentisiaethau | 117,033 | 140,033 | Darparu llwybrau addysg ôl-16, gan gynnwys darpariaeth Safon Uwch, Addysg Bellach a phrentisiaethau.[10] |
| Y Gymraeg ac Addysg | Y Gymraeg | Y Gymraeg | 22,404 | 22,404 | Mae dyraniad y gyllideb yn cyllido ystod o weithgarwch gan gynnwys darparu llwybrau addysg a gwaith ar dechnoleg iaith, e.e., gan gynnwys cyllido Canolfan Bedwyr ym Mhrifysgol Bangor.[11] |

[6] Gweler troednodyn 2.
[7] Gweler troednodyn 2.
[8] Gweler troednodyn 2.
[9] Gweler troednodyn 2.
[10] Gweler troednodyn 2.
[11] Gweler troednodyn 2.

| MEG[1] | AGA | BEL | Dyraniad £000oedd 22-23 | Dyraniad Dangosol 23-24 | Gweithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder a gyllidir yn ôl BEL |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Gymraeg ac Addysg | Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid | Addysg Troseddwyr | 7,328 | 7,328 | Cyllid i ddarparu addysg a sgiliau mewn carchardai, a gyflwynir drwy HMPPS drwy gontractau caffael a darpariaeth uniongyrchol. Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar waith gyda HMPPS. |
| Y Gymraeg ac Addysg | Llesiant | Dull Gweithredu Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant | 5,200 | 7,400 | Mae'r dull gweithredu ysgol gyfan yn ymwneud â chefnogi iechyd a llesiant emosiynol a meddyliol dysgwyr a staff mewn ysgolion yn ogystal ag oedolion yr ymddiriedir ynddynt fel rhan o gymuned yr ysgol. Mae fframwaith y dull gweithredu ysgol gyfan yn rhoi pwyslais ar nodi'n gynnar ac atal. Gall y cyllid a ddarperir i awdurdodau lleol fel rhan o'r dull gweithredu hwn gael ei ddefnyddio i ddarparu cymorth wedi'i dargedu i nodi ar gam cynnar bobl ifanc sy'n wynebu risg o ymddieithrio o addysg ac sy'n fwy agored i ddod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol.<br><br>Mae sawl prosiect yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd sy'n rhan o'r maes polisi a gyllidir gan y MEG hwn a'r Llinell Wariant yn y Gyllideb hon.[12] Er enghraifft, caiff tua £2m y flwyddyn ei fuddsoddi yn Rhaglen Ysgolion yr Heddlu Cymru sy'n darparu gwersi a chymorth ar bynciau yn cynnwys camddefnyddio sylweddau, a materion ehangach yn ymwneud â diogelwch personol a chymunedol. |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | Cyllidebau Canolog Iechyd | Iechyd Meddwl | 88,212 | 83,601 | Mae dyraniad y gyllideb yn darparu adnoddau ar gyfer y dull gweithredu ysgol gyfan, gan gefnogi iechyd a llesiant emosiynol a meddyliol dysgwyr a staff mewn ysgolion yn ogystal ag oedolion yr ymddiriedir ynddynt fel rhan o gymuned yr ysgol. Mae sawl prosiect yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd sy'n rhan o'r maes polisi a gyllidir gan y MEG hwn a'r Llinell Wariant yn y Gyllideb hon.[13] |

[12] Gweler troednodyn 2.
[13] Gweler troednodyn 2.

Tudalen y pecyn 37

| MEG[1] | AGA | BEL | Dyraniad £000oedd 22-23 | Dyraniad Dangosol 23-24 | Gweithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder a gyllidir yn ôl BEL |
|---|---|---|---|---|---|
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | Galluogi Plant a Chymunedau | Grant Plant a Chymunedau (trosglwyddwyd o'r MEG Cyllid a Llywodraeth Leol) | 149,937 | 171,045 | Caiff camau i weithredu'r Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) eu cefnogi drwy ffrwd gyllido o £810,000 ar gyfer y grant cymorth rhianta ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys, a weinyddir drwy'r Grant Plant a Chymunedau<br><br>Sicrhau perchenogaeth dros ddull trawslywodraethol o ddiogelu plant a phobl ifanc agored i niwed mewn addysg. Tlodi ac iechyd meddwl mewn ysgolion a deilliannau dysgu i'r rhai mwyaf difreintiedig - ffrwd waith VCYPS plant sy'n derbyn gofal, gwrth-fwlio, presenoldeb yn yr ysgol.[14] |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | Cyflenwi Gwasanaethau'r GIG | Dyraniadau Craidd y GIG | 8,253,211 | 8,611,185 | Cytundeb Partneriaeth ar gyfer Iechyd mewn Carchardai yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ffrydiau gwaith a arweinir gan Lywodraeth Cymru ar iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a rheoli meddyginiaethau.<br><br>Mae ffrwd waith hefyd ar amgylchedd carchardai a arweinir gan HMPPS. Dyrannodd Llywodraeth Cymru gyllid rheolaidd ychwanegol o 2019/20 (£1.2 miliwn) i helpu byrddau iechyd lleol i wella mynediad i wasanaethau iechyd yn yr ystad carchardai cyhoeddus. Nod y cyllid hwn yw cefnogi gwelliannau i wasanaethau iechyd ac iechyd meddwl a gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd ar gyfer pobl mewn carchardai ac fe'i dyrannwyd i'r Byrddau Iechyd hynny sydd â charchardai sector cyhoeddus (Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro). Mae trefniadau cyllido ar wahân ar waith ar gyfer CEF Berwyn, yn ogystal â CEF Y Parc.[15] |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | Cefnogi Plant | Cefnogi Plant | 4,865 | 3,865 | Cyllid ar gyfer polisi a gweithgarwch cyfiawnder teuluol sy'n arwain at leihad yn nifer y plant sy'n cael eu derbyn i ofal, |

[14] Gweler troednodyn 2.
[15] Gweler troednodyn 2.

Tudalen y pecyn 38

| MEG[1] | AGA | BEL | Dyraniad £000oedd 22-23 | Dyraniad Dangosol 23-24 | Gweithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder a gyllidir yn ôl BEL |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | canlyniadau gwell a phrofiadau gwell i blant. [16] Darperir cyllid rheolaidd o £850k i awdurdodau lleol er mwyn cefnogi Gwasanaethau Adlewyrchu drwy'r Grant Cynnal Refeniw.<br><br>Cafodd grant ei ddyfarnu yn 2020-21 (i Fwrdd Cyfiawnder Teuluol Lleol De-ddwyrain Cymru - peilot o fodel Llys Cyffuriau ac Alcohol Teuluol cyf 20-21/073) a dalwyd ymlaen llaw yn 20-21 i gwmpasu'r cyfnod rhwng mis Chwefror 2021 a 31 Awst 2023. |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy | Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy | 99,715 | 109,715 | Dadansoddi a gwerthuso camau i weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2015.[17] Roedd y Ddeddf yn amlinellu gofynion i sicrhau bod gwasanaethau lleol yn cael eu darparu i atal plant rhag troseddu ac i hyrwyddo eu lles yn y dyfodol. |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | Cefnogi Plant | Cymorth i Deuluoedd a Phlant | 6,720 | 5,170 | Fframwaith i gefnogi newidiadau cadarnhaol i'r rhai sydd mewn perygl o droseddu yng Nghymru, 2018-2023 a diddymu'r amddiffyniad "cosb resymol" a chefnogi gwaith i weithredu'r ddeddfwriaeth sy'n ei gwneud yn anghyfreithlon i gosbi plant yn gorfforol (Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020) drwy gyllido'r cynllun cymorth rhianta ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys. Dyrennir £810,000 ar gyfer 2023-24.[18] |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | CAFCASS Cymru | CAFCASS Cymru | 14,725 | 15,195 | Cyllid ar gyfer CAFCASS Cymru. |
| Newid Hinsawdd | Polisi Tai | Digartrefedd | 31,147 | 46,147 | Er mwyn lletya troseddwyr o Gymru, mae Llywodraeth Cymru a HMPPS wedi ymrwymo i gydweithio mewn ffordd strategol i atal troseddwyr yng Nghymru rhag bod yn ddigartref a mynd i'r afael â digartrefedd ymhlith troseddwyr. Nod y gwaith yw sicrhau nad yw gwahaniaethau polisi yn effeithio ar ganlyniadau tai carcharorion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. |

[16] Gweler troednodyn 2.
[17] Gweler troednodyn 2.
[18] Gweler troednodyn 2.

| MEG[1] | AGA | BEL | Dyraniad £000oedd 22-23 | Dyraniad Dangosol 23-24 | Gweithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder a gyllidir yn ôl BEL |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Gwella gweithrediad y Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion yn yr ystad ddiogel<br><br>Profi a gwerthuso datrysiadau tai i droseddwyr sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru drwy nifer o brosiectau, gan gynnwys prosiect Tai yn Gyntaf penodol yng Nghaerdydd.[19] |



[19] Gweler troednodyn 2.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Mick Antoniw AS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

23 Tachwedd 2022

Annwyl Mick

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24

I gynorthwyo ein gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24, y disgwylir iddi gael ei chyhoeddi ar 13 Rhagfyr 2022, byddem yn ddiolchgar o gael rhagor o fanylion am wariant arfaethedig Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyfiawnder a hygyrchedd cyfraith Cymru.

Byddwch yn cofio fy mod wedi ysgrifennu atoch chi ac at y Prif Weinidog ynghylch mater tebyg y llynedd cyn cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2022-23. Roeddem yn ddiolchgar bryd hynny am y wybodaeth a roddwyd gan y Prif Weinidog a thystiolaeth lafar a roddwyd gennych chi unwaith y cafodd y gyllideb ddrafft ei chyhoeddi, ac ar gyfer yr ymrwymiadau a wnaethoch mewn gohebiaeth ddilynol.

Mae tîm clercio'r Pwyllgor wedi cysylltu â chi i drefnu dyddiad addas ym mis Ionawr ar gyfer sesiwn dystiolaeth gyda chi ar y gyllideb ddrafft. Byddem yn ddiolchgar felly i gael rhagor o fanylion o fewn y meysydd a nodir yn yr Atodiad cyn y sesiwn.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd



Senedd Cymru
Welsh Parliament

## Atodiad

### Cyffredinol

**1.** Dadansoddiad o wariant arfaethedig ar gamau gweithredu sy'n ymwneud â chyfiawnder o fewn cyllideb ddrafft 2023-24 a chyllidebau dangosol y dyfodol, yn ôl Maes Rhaglen Wariant, Llinell Wariant yn y Gyllideb, refeniw a chyfalaf, a, lle bo'n berthnasol, cymhariaeth flwyddyn i flwyddyn o wariant arfaethedig yn 2022-23.

**2.** Disgrifiad naratif manwl o unrhyw wariant arfaethedig ar gyfiawnder yng nghyllideb ddrafft 2023-24 ac unrhyw newidiadau a nodwyd o flwyddyn i flwyddyn.

**3.** Crynodeb o'r gwaith a wnaed i wella lefel y wybodaeth a ddarparwyd ar wariant cyfiawnder arfaethedig o fewn y gyllideb ddrafft, yn unol â'r argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor y llynedd ac a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, a manylion am unrhyw newidiadau a wnaed i strwythur a chyflwyniad y gyllideb o gymharu â blynyddoedd blaenorol o ganlyniad.

### Sicrhau Cyfiawnder i Gymru

**4.** Dadansoddiad o wariant arfaethedig ar Gyngor Cyfraith Cymru yn 2023-24, gan gynnwys manylion am raglenni a phrosiectau penodol.

**5.** Trosolwg o wariant arfaethedig yn 2023-24 ar raglen waith Sicrhau Cyfiawnder i Gymru gan gynnwys:

- y canlyniadau y mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio eu cyflawni o ganlyniad i'r gwariant hwn;
- esboniad o ba feysydd gwaith fydd yn cael blaenoriaeth yn 2023-24; a
- manylion am sut mae'r gwariant arfaethedig hwn yn cymharu â gwariant ar raglen waith Sicrhau Cyfiawnder i Gymru yn y flwyddyn ariannol gyfredol 2022-23.

**6.** Manylion y gwariant arfaethedig ar raglenni cyfiawnder mewn partneriaeth â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn 2023-24.

**7.** Trosolwg o unrhyw adnoddau yng nghyllideb ddrafft 2023-24 i fwrw ymlaen ag argymhellion adroddiad Tribiwnlysoedd Datganoledig yng Nghymru Comisiwn y Gyfraith.

### Dyfodol Cyfraith Cymru

**8.** Dadansoddiad o unrhyw wariant arfaethedig o fewn cyllideb ddrafft 2023-24 sy'n ymwneud â chyflawni rhaglen Llywodraeth Cymru i wella hygyrchedd y gyfraith gan gynnwys:

- cyllid i Ganolfan Bedwyr ym Mhrifysgol Bangor i ddatblygu cyfieithu peirianyddol penodol ar gyfer y gyfraith a deddfwriaeth, ac unrhyw gyllid ar gyfer prosiectau eraill yn y dyfodol mewn perthynas â defnyddio dysgu peirianyddol neu ddeallusrwydd artiffisial ym maes deddfwriaeth;
- adnoddau ar gyfer cynlluniau Llywodraeth Cymru i gymryd cyfrifoldeb am ddarparu deddfwriaeth ddwyieithog gyfredol ar legislation.gov.uk.

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 16 Ionawr 2023

## SL(6)302 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygio) 2022

### Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 (S.I. 2020/1073 (W. 241)) ("y Rheoliadau Fferyllol"). Mae'r Rheoliadau Fferyllol yn llywodraethu'r modd y darperir Gwasanaethau Fferyllol fel rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru o dan Ran 7 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ("Deddf 2006").

Seilir y cynllun ar gyfer talu am wasanaethau fferyllol a gwasanaethau fferyllol lleol yn Rhan 7 o Ddeddf 2006 ar y sail y bydd yr awdurdodau penderfynu ar gyfer tâl fferyllol yn cynnwys, fel rheol, yn y taliadau am y gwasanaethau hynny, swm sydd mewn perthynas â'r pris a delir gan ddarparwyr gwasanaethau pan brynasant yr eitemau presgripsiwn y maent yn eu cyflenwi neu'n eu gweinyddu i gleifion y GIG.

Mae pwerau yn Rhan 7 yn galluogi dewisiadau amgen i'r trefniadau taliadau cyffredin hyn mewn rhai amgylchiadau.

Mae rheoliad 4 yn mewnosod rheoliad newydd 55A yn y Rheoliadau Fferyllol. Mae hyn yn darparu, pan fo Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol wedi prynu brechlynnau rhag y coronafeirws, meddyginiaethau gwrthfeirol yn erbyn y coronafeirws neu frechlynnau rhag y ffliw yn ganolog, ac y rhoddir y cynhyrchion hynny ar gael i fferyllfeydd cymunedol heb gost, fod yr awdurdodau penderfynu ar gyfer tâl fferyllol i osod pris ad-dalu o sero neu bris nominal ar gyfer y GIG am y cynhyrchion hynny, os yw amodau penodol wedi eu bodloni.

Nid yw hyn yn atal yr awdurdodau penderfynu rhag talu fferyllfeydd cymunedol am y gwasanaethau y maent yn eu darparu ar y cyd â chyflenwi neu roi'r brechlynnau hynny neu'r meddyginiaethau gwrthfeirol hynny.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006
**Fe'u gwnaed ar:** 11 Rhagfyr 2022
**Fe'u gosodwyd ar:** 13 Rhagfyr 2022
**Yn dod i rym ar:** 06 Ionawr 2023

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 16 Ionawr 2023

## SL(6)311 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2023

### Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae'n ofynnol i awdurdodau bilio gyflwyno hysbysiadau galw am dalu ardrethi annomestig (biliau ardrethu) o dan Rhan II o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestrau Lleol) 1989, Rhaid i nodiadau esboniadol ddod gyda hysbysiadau galw am dalu.

Caiff cynnwys y nodiadau esboniadol ei adolygu’n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu system Ardrethu Annomestig Cymru yn gywir. Mae'n ofynnol i newidiadau sicrhau bod y wybodaeth sy'n cyd-fynd â'r hysbysiadau galw am dalu yn berthnasol i'r trefniadau a fydd ar waith o 1 Ebrill 2023. Er enghraifft:

- Lluniwyd y rhestr Ardrethu Annomestig bresennol ar 1 Ebrill 2017, yn seiliedig ar ddyddiad prisio rhagflaenol (AVD) o 1 Ebrill 2015. Caiff y rhestr Ardrethu Annomestig nesaf ei llunio ar 1 Ebrill 2023, yn dilyn ailbrisio yn seiliedig ar AVD o 1 Ebrill 2021. Ar hyn o bryd, mae'r wybodaeth esboniadol a ragnodwyd i'w darparu gan awdurdodau bilio ochr yn ochr â hysbysiad galw am daliad yn cynnwys cyfeiriadau penodol sy'n berthnasol i restr sgorio 2017 yn unig. Mae'r Rheoliadau hyn yn diweddaru'r cyfeiriadau hyn fel eu bod yn berthnasol i restr sgorio 2023.

- Bydd proses apelio newydd ar gyfer Ardrethu Annomestig yn berthnasol o 1 Ebrill 2023, felly mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r nodiadau esboniadol i adlewyrchu'r newid hwnnw.

- Mae cyfeiriad sydd bellach yn hen ffasiwn yn y nodiadau esboniadol i ddyrchafu'r lluosydd Ardrethu Annomestig drwy gyfeirio at y Mynegai Prisiau Manwerthu yn cael ei ddileu.

- Diwygiwyd y cyfeiriad at ryddhad trosiannol i adlewyrchu'r rhyddhad trosiannol sy'n berthnasol i restr sgorio 2023.

**Rhiant-Ddeddf:** Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988
**Fe’u gwnaed ar:** 05 Ionawr 2023
**Fe’u gosodwyd ar:** 09 Ionawr 2023
**Yn dod i rym ar:** 31 Ionawr 2023

Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

# SL(6)301 – Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) 2023

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) 2014 ("Rheoliadau 2014") sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer pa ddosbarthiadau o bersonau sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo sy'n gymwys i gael dyraniad o lety tai a chymorth tai.

Mae rheoliad 3 yn diwygio rheoliad 3 o Reoliadau 2014 sy'n ymwneud â chymhwystra personau sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo i gael dyraniad o lety tai o dan Ran 6 o Ddeddf Tai 1996 ("Deddf 1996"). Mae'n rhagnodi dosbarth ychwanegol o bersonau (Dosbarth M) sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo, sy'n gymwys i gael dyraniad o lety tai o dan Ddeddf 1996.

Mae Dosbarth M yn gymwys i bersonau sy'n ddioddefwyr y fasnach mewn pobl neu gaethwasiaeth ac y rhoddwyd iddynt ganiatâd dros dro i aros yn y Deyrnas Unedig yn unol â'r Rheolau Mewnfudo a wnaed o dan Ddeddf Mewnfudo 1971.

Mae rheoliad 4 yn diwygio rheoliad 5(1) o Reoliadau 2014 sy'n ymwneud â chymhwystra personau sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo i gael cymorth tai o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Mae'n rhagnodi dosbarth ychwanegol o bobl, a elwir yn Ddosbarth N, sy'n gymwys i gael cymorth o'r fath. Mae'r dosbarth hwn yn cyfateb i Ddosbarth M a fewnosodir gan reoliad 3.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau wedi'i osod yn Saesneg yn unig.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio pam nad yw fersiwn Gymraeg o'r Memorandwm Esboniadol wedi'i osod.

2. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na fu dim ymgynghori ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"As the TPS is a product of reserved UK Government policy (immigration), it would not be possible to undertake a meaningful consultation on alternative approaches, as the effect of the 2022 Regulations[1] is to ensure consistency between Welsh housing law and immigration law."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phwynt un.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**11 Ionawr 2023**

[1] Dylai'r cyfeiriad fod at Reoliadau 2023. Ymddengys fod hwn yn gamgymeriad yn y Memorandwm Esboniadol.

# **SL(6)307** - Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2022

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau yn cael eu gwneud o dan Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 ("y Ddeddf TGT"). Mae'r Ddeddf TGT yn sefydlu ac yn nodi'r fframwaith a'r trefniadau gweithredol ar gyfer treth gwarediadau tirlenwi a ddisodlodd dreth dirlenwi'r DU (LfT) yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r gyfradd safonol, y gyfradd is a'r gyfradd gwarediadau anawdurdodedig ar gyfer treth gwarediadau tirlenwi, a fydd yn gymwys i warediadau trethadwy a wneir ar 1 Ebrill 2023 neu wedi hynny.

Dyma'r cyfraddau o 1 Ebrill 2023 ymlaen:

- Y gyfradd safonol yw **£102.10** y dunnell (wedi'i chynyddu o £98.60 y dunnell),
- Y gyfradd is yw **£3.25** y dunnell (wedi'i chynyddu o £3.15 y dunnell)
- Y gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi yw **£153.15** y dunnell (wedi'i chynyddu o £147.90 y dunnell).

Bydd gwarediadau trethadwy a wneir ar 1 Ebrill 2022 neu wedi hynny ond cyn 1 Ebrill 2023 yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r cyfraddau a bennir yn Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2021.

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol

Cafodd y Rheoliadau eu gwneud gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Craffu Technegol

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 23.1 (i) - ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu i unrhyw awdurdod lleol neu**

**gyhoeddus yn gydnabyddiaeth am unrhyw drwydded neu gydsyniad neu am unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath.**

Mae adran 25 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn nodi bod yn rhaid i Awdurdod Cyllid Cymru dalu symiau a gesglir wrth arfer ei swyddogaethau i Gronfa Gyfunol Cymru. Awdurdod Cyllid Cymru sy'n gyfrifol am gasglu a rheoli'r dreth gwarediadau tirlenwi. Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r tair cyfradd ar gyfer treth gwarediadau tirlenwi yng Nghymru.

2. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae Adroddiad Polisi Treth Cymru 2022, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24, yn cyfeirio at adolygiad annibynnol, a'i ddiben yw gwerthuso effeithiolrwydd y Ddeddf TGT. Mae'r trefniant hwn yn ceisio bodloni'r ymrwymiad a roddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ar y pryd yn ystod trafodion Cyfnod 3 ar gyfer y Ddeddf TGT y dylid cynnal adolygiad annibynnol o'r dreth gwarediadau tirlenwi, yn debyg i'r hyn y cytunwyd arno yng nghyd-destun y dreth trafodiadau tir, sy'n cwmpasu'r dreth gyfan.

Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn dweud bod adolygiad annibynnol o'r dreth gwarediadau tirlenwi wrthi'n cael ei gynnal i fodloni'r ymrwymiad hwnnw. Yn benodol, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

> *"4.22 An interim report, outlining initial findings, was completed on 30 September 2022 and contained findings drawn from a review of key data and literature. The findings of the interim report are limited, and more detailed research is needed to fully explore the questions we are seeking to answer through the review. However, the interim report highlights the challenge of isolating the impact of LDT in terms of incentivising increases in recycling and reuse of materials, encouraging use of more sustainable technologies and influencing behaviour change across the waste management sector. This is because LDT is one of a range of policy tools which are in place to support the achievement of the Welsh Government's environmental goals. The role of LDT in working alongside these other policy tools will be explored in more detail during the next phase of the review.*
>
> *4.23 The final review report is expected to be published towards the end of spring 2023."*

3. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi dibynnu ar Reol Sefydlog 15.4 i gyfiawnhau gosod Memorandwm Esboniadol Saesneg yn unig, ar y sail nad yw'n cael ei ystyried yn briodol o dan yr amgylchiadau nac yn rhesymol ymarferol ei osod yn Gymraeg ac yn Saesneg. Byddai

Memorandwm Esboniadol Cymraeg yn helpu unrhyw siaradwyr Cymraeg sydd â diddordeb yng nghefndir a diben y Rheoliadau, a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar eu cyfer.

Dylai Llywodraeth Cymru esbonio pam nad yw'n cael ei ystyried yn briodol nac yn rhesymol ymarferol gosod y Memorandwm Esboniadol yn Gymraeg.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb oddi wrth Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phwynt 3.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**4 Ionawr 2023**

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/RE/3483/22

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

13 Rhagfyr 2022

**Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2022**

Heddiw rwyf wedi gwneud y Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2021 o dan adrannau 14(3) a (6), 46(4), 93 a 94(1) o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2023. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, yr wyf yn bwriadu ei osod cyn gynted ag y bydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn a nodwyd yn adran 95 o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, rhaid i'r offeryn gael ei gymeradwyo gan y Senedd erbyn 30 Ionawr 2023 er mwyn iddo barhau i fod yn weithredol. Yn yr amgylchiadau hyn rwy'n deall bod Rheol Sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y gall y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen adrodd ar gyfer y pwyllgor neu bwyllgorau â chyfrifoldeb. Gall fod yn ddefnyddiol i chi wybod fy mod yn bwriadu cynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth hon ar 24 Ionawr 2023.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# SL(6)299 – Rheoliadau Hadau (Cywerthedd) (Diwygio) (Cymru) 2022

## Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Hadau (Cywerthedd) (Diwygio) (Cymru) 2022 ("y Rheoliadau") yn diwygio Erthygl 6 o Benderfyniad y Cyngor 2003/17/EC dyddiedig 16 Rhagfyr 2002 ar gywerthedd archwiliadau maes a gynhelir mewn trydydd gwledydd ar gnydau sy'n cynhyrchu hadau ac ar gywerthedd hadau a gynhyrchir mewn trydydd gwledydd. Mae'r Rheoliadau yn estyn dyddiad dod i ben y Penderfyniad hwn o 31 Rhagfyr 2022 i 31 Rhagfyr 2029.

Roedd y cynnig i ymestyn Penderfyniad y Cyngor yn ddarostyngedig i gyfnod o chwe wythnos o ymgysylltu anffurfiol â rhanddeiliaid. Gwnaed hyn ar y cyd gan Lywodraethau Cymru, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth y DU.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(ii) - yr ymddengys ei fod yn gwneud defnydd anarferol neu annisgwyl o'r pwerau a roddwyd gan y deddfiad y mae wedi'i wneud neu y mae i'w wneud oddi tano;**

Yn y rhaglith, mae angen eglurhad ynghylch a yw'r pwerau a ddefnyddiwyd yn gywir. Mae'r offerynnau cyfatebol ar gyfer Lloegr a'r Alban ond yn cyfeirio at "section 16 **(1) and (1A)**" yn lle "section 16**(1) to (4)**". Nid yw'n glir a ddefnyddir y pwerau yn is-adrannau (2) i (4) yn yr offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

2. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Yn y Nodiadau Esboniadol, nid oes unrhyw baragraff yn nodi pa un a yw Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn bodoli ai peidio, neu lle y gellir dod o hyd iddo. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio bod Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn bodoli ond nid yw hyn yn cael ei esbonio yn y Rheoliadau.

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Gwneir y pwyntiau a ganlyn ynghylch termau a ddefnyddir yn y testun Cymraeg ar gyfer "equivalence" a "field inspections".

a. Defnyddir "Cywerthedd" yn y cyfieithiad am y gair "equivalence" yn y testun Cymraeg. Mae'r ffurf hon yn ymddangos yng Ngeiriadur yr Academi Gymreig fel sillafiad posibl o'r enw hwn, a cheir rhai enghreifftiau mewn offerynnau statudol diweddar. Ond mae Uned Cyfieithu Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn dilyn Geiriadur Prifysgol Cymru yn bennaf ac yn nodi "cy**f**werthedd" fel y sillafiad safonol ar gyfer yr enw hwn. At hynny, ni chyfeirir at "cywerthedd" ar wefan BydTermCymru, ond defnyddir "cyfwerthedd" yn hytrach am yr enw hwn. Mae'n ymddangos, felly, nad yw'r cyfieithiad wedi defnyddio canllawiau cyfieithu Llywodraeth Cymru trwy ddefnyddio "cywerthedd" yn hytrach na "cyfwerthedd" yn y Rheoliadau hyn.
b. Yn y Rheoliadau hyn, yn y testun Cymraeg, defnyddir "archwiliadau maes" fel y cyfieithiad ar gyfer "field inspections". Ond ymddengys fod rhywfaint o amrywiaeth rhwng "archwiliadau maes" ac "arolygiadau maes" yng nghyfieithiad yr offerynnau statudol. Mae'n ymddangos mai "arolygu" yw'r term safonol ar gyfer "inspection" yn Nherminoleg Ddeddfwriaethol yr Uned Cyfieithu Deddfwriaethol, ac mae angen gwahaniaethu ar adegau rhwng "examine" ac "inspect".

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r pwynt adrodd technegol, a'r ddau bwynt rhinweddau.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 9 Ionawr 2023 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Hadau (Cywerthedd) (Diwygio) (Cymru) 2022**

**Pwynt Craffu Technegol 1**:

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y darpariaethau perthnasol. Nid yw o'r farn bod y cyfeiriad at adrannau 16(2) i 16(4) yn effeithio ar vires y rheoliadau. Fodd bynnag, wedi meddwl, mae'r pwerau o dan adran 16(1) ac 16(1A) ar gyfer gwneud darpariaeth i reoleiddio'r broses o fewnforio hadau yn ddigon eang i gwmpasu estyniad Penderfyniad y Cyngor 2003/17/EC dyddiedig 16 Rhagfyr 2002.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 2**:

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn bodoli fel y'i nodir yn y Memorandwm Esboniadol ac mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am dynnu ein sylw at y pwynt hwn.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 3a**:

O ran y defnydd o "cywerthedd" am "equivalence", defnyddiwyd y term hwn er mwyn sicrhau cysondeb â rheoliadau blaenorol yn yr un maes. Fe'i defnyddiwyd yn Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012 ac mewn OSau diwygio dilynol. Fodd bynnag, wedi ystyried y mater ymhellach, mae Llywodraeth Cymru yn cytuno, er hygyrchedd, y byddai'n well defnyddio'r term "cyfwerthedd", oni bai bod OSau sy'n defnyddio "cywerthedd" yn cael eu dyfynnu.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 3b**:

Mewn perthynas â'r defnydd o'r term "archwiliadau maes", mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod anghysondeb wedi bod mewn rheoliadau blaenorol, a defnyddir "arolygiadau maes" yn y dyfodol.

O ran Pwynt Craffu Technegol 1 a Phwynt Craffu ar Rinweddau 2, bydd OS diwygio sy'n gwneud cywiriadau yn cael ei wneud cyn gynted â phosibl.

Eitem 6.1

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid a'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio) 2022** |
| **DYDDIAD** | **20 Rhagfyr 2022** |
| **GAN** | **Lesley Griffiths AS**<br>**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd** |

Bydd Aelodau'r Senedd eisiau bod yn ymwybodol ein bod yn rhoi ein cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig o ran Cymru.

Ceisiodd Mark Spencer AS, Gweinidog Gwladol DEFRA, gydsyniad ynglŷn â gwneud Offeryn Statudol (OS) o'r enw Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022 i fod yn berthnasol i Brydain Fawr.

Bydd yr OS uchod yn cael ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy arfer pwerau a roddir gan adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Mae paragraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn darparu pŵer sy'n caniatáu i ddiwygiadau canlyniadol gael eu gwneud i Reoliadau yn ôl yr angen (yn yr achos hwn, ar ôl diwygio'r Rheoliadau Iechyd Planhigion).

Cafodd y Rheoliadau eu gosod gerbron Senedd y DU ar 19 Rhagfyr 2022. Mae'r dyddiadau cychwyn ar gyfer y mesurau wedi'u rhannu yn ôl mesurau brys (y pŵer i gyflwyno ardaloedd â ffiniau penodedig) y disgwylir iddynt ddod i rym ar 20 Rhagfyr, a mesurau di-frys (mân wall drafftio yn ymwneud â thatws Libaneaidd) y disgwylir iddynt ddod i rym ar 4 Chwefror 2023.

**Effeithiau y gall yr OS eu cael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Cyflwynodd diwygiadau blaenorol a wnaed i'r Rheoliadau Iechyd Planhigion gywiriadau a oedd eu hangen i'r drefn reoleiddio ar gyfer iechyd planhigion. Ehangodd cymhwysedd gweithredol Gweinidogion o ganlyniad i'r swyddogaethau dilyffethair a roddwyd iddynt (yn eu rhinwedd fel 'Awdurdod Cymwys' Cymru) yn sgil y diwygiadau. Bydd y Gweinidog yn dymuno nodi nad yw'r Rheoliadau'n trosglwyddo unrhyw swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol.

**Diben y diwygiadau**

Mae'r Rheoliadau yn caniatáu i ardaloedd â ffiniau penodedig gael eu sefydlu y tu allan i'r wlad y canfu plâu neu heintiau planhigion ynddi. Mae'r rhain yn fesurau bioddiogelwch pwysig a roddir ar waith ar adegau pan geir achosion o blâu neu heintiau planhigion sy'n cyfyngu ar symud pren, planhigion ar gyfer plannu neu ddeunydd coedwigaeth.

Maent yn angenrheidiol oherwydd nid yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn caniatáu i ardal â ffiniau penodedig gael ei sefydlu pan ganfyddir pla o fewn un o'r tiriogaethau eraill ym Mhrydain Fawr. Mae hyn yn golygu, pan geir achosion o bla neu haint planhigion mewn un wlad, yn gyfagos i'r ffin, ar hyn o bryd nid oes gan y wlad arall unrhyw bŵer i gyflwyno ardaloedd â ffiniau penodedig fel mesur bioddiogelwch.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn cywiro mân wallau drafftio o fewn Rheoliadau Anifeiliaid, Bwyd, Iechyd Planhigion, Deunyddiau Lluosogi Planhigion a Hadau (Diwygiadau Amrywiol etc.) 2022 sy'n ymwneud â thatws Libaneaidd nad ydynt i'w plannu.

Mae'r Rheoliadau, a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef, sy'n nodi manylion ynglŷn â tharddiad, diben ac effaith y diwygiadau, ar gael yma: https://www.legislation.gov.uk/uksi/2022/1367/contents/made

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU mewn perthynas ag ardaloedd â ffiniau penodedig oherwydd ni allai Gweinidogion Cymru wneud y darpariaethau drwy arfer ein pwerau ein hunain oherwydd bod y pŵer i ddiwygio yn ganlyniadol i ddiwygiad a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Oherwydd y gwneir Rheoliadau i Gymru o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, o dan adran 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 gall y Rheoliadau hyn gael eu diwygio gan Weinidog y Goron.

Mewn perthynas â thatws Libaneaidd, rhoddwyd cydsyniad i wneud y cywiriadau hyn ar ran Cymru er rhesymau effeithlonrwydd a hwylustod ac i ddiogelu bioamrywiaeth. Cafodd y diwygiadau eu hystyried yn ofalus ac mae'r polisïau'n cyd-fynd â'i gilydd yn llwyr.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddLJC@senedd.cymru

20 Rhagfyr 2022

Annwyl Huw,

Yn dilyn fy llythyr, dyddiedig 23 Tachwedd, hoffwn roi gwybod i'r Pwyllgor fy mod wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Gweinidog Gwladol dros Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig osod Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid a'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio) 2022 erbyn 19 Rhagfyr. Rwyf wedi gwneud Datganiad Ysgrifenedig, y gellir ei weld yn https://senedd.cymru/media/mkkdrj3n/ws-ld15574-w.pdf

Mae'r Rheoliadau yn caniatáu i ardaloedd â ffiniau penodedig gael eu sefydlu y tu allan i'r wlad y canfu plâu neu heintiau planhigion ynddi. Mae'r rhain yn fesurau bioddiogelwch pwysig a roddir ar waith ar adegau pan geir achosion o blâu neu heintiau planhigion sy'n cyfyngu ar symud pren, planhigion ar gyfer plannu neu ddeunydd coedwigaeth. Maent yn angenrheidiol oherwydd nid yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn caniatáu i ardal â ffiniau penodedig gael ei sefydlu pan ganfyddir pla o fewn un o'r tiriogaethau eraill ym Mhrydain Fawr. Mae hyn yn golygu, pan geir achosion o bla neu haint planhigion mewn un wlad, yn gyfagos i'r ffin, ar hyn o bryd nid oes gan y wlad arall unrhyw bŵer i gyflwyno ardaloedd â ffiniau penodedig fel mesur bioddiogelwch.

Yn yr achos hwn, ni allai Gweinidogion Cymru wneud y darpariaethau wrth arfer ein pwerau ein hunain oherwydd bod y pŵer i ddiwygio yn ganlyniadol i ddiwygiad a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Oherwydd y gwneir Rheoliadau i Gymru o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, o dan adran 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 gall y Rheoliadau hyn gael eu diwygio gan Weinidog y Goron. Mae Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022 yn cael eu gwneud o dan adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, ac mae paragraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn darparu pŵer sy'n caniatáu i ddiwygiadau canlyniadol gael eu gwneud i Reoliadau yn ôl yr angen (yn yr achos hwn, ar ôl diwygio'r Rheoliadau Iechyd Planhigion). Mae'r Rheoliadau'n croestorri â pholisïau datganoledig a byddant yn berthnasol i Gymru, Lloegr a'r Alban.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn cywiro mân wallau drafftio o fewn Rheoliadau Anifeiliaid, Bwyd, Iechyd Planhigion, Deunyddiau Lluosogi Planhigion a Hadau (Diwygiadau Amrywiol etc.) 2022 sy'n ymwneud â thatws Libaneaidd nad ydynt i'w plannu.

Mae angen cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon ar fyrder er mwyn diogelu bioamrywiaeth yng Nghymru. Rwyf o'r farn mai dyma'r ffordd fwyaf priodol o roi effaith i'r newidiadau angenrheidiol.

Rwyf wedi ysgrifennu yn yr un modd at Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**WS-30C(6)022 – Rheoliadau Iechyd Planhigion a'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio) 2022**

*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 19 Rhagfyr 2022*

| **Sifftio** | |
|---|---|
| Yn destun sifftio yn Senedd y DU? | Na |
| Gweithdrefn: | Gwneud negyddol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amherthnasol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amherthnasol |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amherthnasol |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Nid yw'n ofynnol |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amherthnasol |
| Y weithdrefn | Gwneud negyddol |
| Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Cefndir**

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Lywodraeth y DU o dan adran 8(1), a pharagraff 21, o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

**Crynodeb**

Mae'r Rheoliadau yn caniatáu sefydlu, o fewn Prydain Fawr, ardaloedd â ffiniau penodedig y tu allan i'r wlad y canfu plâu neu heintiau planhigion ynddi. Mae'r rhain yn fesurau bioddiogelwch pwysig a roddir ar waith ar adegau pan geir achosion o blâu neu heintiau planhigion sy'n cyfyngu ar symud pren, planhigion ar gyfer plannu neu ddeunydd coedwigaeth. Maent yn angenrheidiol oherwydd nid yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn caniatáu i ardal â ffiniau penodedig gael ei sefydlu pan ganfyddir pla o fewn un o'r tiriogaethau eraill ym Mhrydain Fawr. Mae hyn yn golygu, pan geir achosion o bla neu haint planhigion mewn un wlad, yn gyfagos i'r ffin, ar

hyn o bryd nid oes gan y wlad arall unrhyw bŵer i gyflwyno ardaloedd â ffiniau penodedig fel mesur bioddiogelwch.

Mae’r Rheoliadau hefyd yn cywiro mân wallau i sicrhau bod tatws sy’n tarddu o ranbarthau Libaneaidd penodol (ac eithrio tatws i’w plannu) yn bodloni gofynion mynediad penodol.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**

Mae Cynghorwyr Cyfreithiol y Senedd yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 20 Rhagfyr 2022 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Nodir hefyd fod rheoliadau Llywodraeth y DU yn diwygio set o reoliadau ar gyfer Cymru. Er ein bod yn deall y byddai Llywodraeth Cymru fel arfer yn gwneud ei gwelliannau ei hun i reoliadau Cymru, yn yr achos hwn mae'r pŵer penodol sy'n cael ei ddefnyddio i wneud y gwelliannau yn eiddo i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw Cynghorwyr Cyfreithiol y Senedd o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

4 Ionawr 2023

Llyr Gruffydd
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Annwyl Llyr Gruffydd,

Hoffwn rannu â'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ddolenni i'r Cytundeb Fframwaith Amlinellol a'r Concordat a gyhoeddwyd ar gyfer y fframweithiau cyffredin canlynol sy'n dod o fewn fy mhortffolio:

- Gwastraff ac Adnoddau

https://www.gov.uk/government/publications/resources-and-waste-provisional-common-framework

Bydd y ddogfen hon o gymorth i'ch pwyllgor wrth graffu ar y fframwaith dros dro. Os hoffech graffu arni, mae fy swyddogion yn barod i'ch helpu.

Rwy'n anfon copi o’r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies AS hefyd, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn y Senedd.

Yn gywir



**Julie James AS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LG/3813/22

Huw Irranca Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Huw.irranca-davies@senedd.cymru

11 Rhagfyr 2022

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Rhagfyr, ynglŷn â Rheoliadau Cynhyrchu Organig (Diwygio) (Rhif 2) 2022.

Fel y sylwch, dewisais gydsynio i reoliadau Prydain Fawr i ymestyn rhanddirymiadau ar gyfer defnyddio gwm gellan anorganig, cywennau a bwyd protein yng nghynhyrchiad organig. Er mwyn egluro, ein safbwynt cychwyn yw dylai pwerau deddfu ym meysydd datganoledig gael eu harfer gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru, yn hytrach na Llywodraeth y DU.

Er y gallai'r OS hwn fod wedi cael ei ddatblygu mewn deddfwriaeth Gymreig, yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf mae gwaith ar feysydd eraill wedi cael blaenoriaeth. Byddai dyddiad dod i rym ar gyfer y rheoliadau hyn wedi bod ymhellach yn y dyfodol pe baen nhw wedi eu drafftio yng Nghymru, oherwydd yr angen i ddileu unrhyw anghysondebau wrth ddrafftio rhwng y cenhedloedd a chyfieithu'r drafft yng Nghymru. Fy marn i oedd y gellid defnyddio adnoddau ar faterion deddfwriaethol dybryd eraill lle digwyddodd ymwahanu polisi, sy'n golygu efallai na fu'r OS hwn yn barod cyn i'r rhanddirymiadau blaenorol ddod i ben. Byddai hyn wedi golygu bod rheoliadau gwahanol ar waith yng Nghymru a Lloegr, a fyddai wedi achosi problemau trawsffiniol, gan fod DEFRA yn gweithredu fel yr Awdurdod Cymwys ar gyfer organig ar ran Gweinidogion Cymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Roedd gweithredu'r Fframwaith Cyffredin Dros Dro ar Gynhyrchu Organig yn ffactor a ddylanwadodd ar fy mhenderfyniad i ddarparu caniatâd, gan fod DEFRA wedi dilyn y prosesau a gytunwyd ynddo i hysbysu Llywodraeth Cymru o'u cynlluniau yn iawn a thrafod priodoldeb OS Prydain Fawr.

Cafodd yr OS drafft ei adolygu gan fy swyddogion polisi a chyfreithiol cyn i argymhelliad i gydsynio gael ei roi, er mwyn asesu pa lefel o effaith y byddai'n ei gael. Gofynnon nhw am fân welliannau i'r Memorandwm Esboniadol a ddrafftiwyd gan DEFRA i adlewyrchu sefyllfa Llywodraeth Cymru wrth roi cydsyniad i'r OS hwn. Cyfrannodd hyn at yr amser cynyddol a gymerodd i'ch hysbysu am fy nghaniatâd gan fy mod yn dymuno bod yn sicr bod y newidiadau y gofynnwyd amdanynt wedi'u gwneud . Wrth i'r OS hwn wneud newidiadau a oedd ond yn fân a thechnegol eu natur, ac nid oedd unrhyw ddiddordebau polisi datganoledig sylweddol mewn perygl, roeddwn yn fodlon rhoi fy nghaniatâd iddo gael ei wneud ar sail Prydain Fawr gyfan, yn unol â'r sefyllfa y cytunwyd arni a nodwyd gan y Cabinet ar gyfer defnyddio offerynnau statudol Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn maes datganoledig.

Yr eiddoch yn gywir,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Legislation, Justice and Constitution Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru,
a'r Trefnydd

7 Rhagfyr 2022

Annwyl Lesley

Rheoliadau Cynhyrchu Organig (Diwygio) (Rhif 2) 2022

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Tachwedd yn hysbysu fy Mhwyllgor o'ch penderfyniad i roi caniatâd i Lywodraeth y DU wneud y Rheoliadau uchod ddoe, 6 Rhagfyr.

Trafodwyd eich llythyr yn ein cyfarfod ar 28 Tachwedd. Rydym yn nodi'r rhesymau a roddwyd gennych dros roi caniatâd ac yn cydnabod eich eglurhad o rôl Gweithgor Cynhyrchion Organig y Pedair Gwlad wrth ddatblygu'r Rheoliadau.

Yn benodol, nodwn y rheswm a ganlyn a roddwyd gennych dros roi caniatâd i wneud y rheoliadau hyn ledled Prydain Fawr:

> *"Mae rhanddeiliaid organig yn aml wedi pwysleisio'u dymuniad i gael rheoliadau cyson ledled Prydain Fawr mewn perthynas â safonau organig, a hynny oherwydd bod cadwyni cyflenwi yn drawsffiniol. Mae'n fanteisiol i Gymru sicrhau bod y rheoliadau hyn yn gyson ac yn dod i rym ar yr un pryd ar draws Prydain Fawr."*

Fodd bynnag, rydych hefyd yn nodi y bydd rheoliadau organig newydd yn cael eu datblygu, a "bydd y diweddariad sylweddol hwn i bolisïau organig yn cael ei wneud yn neddfwriaeth Cymru".

I ni, nid yw'n ymddangos bod y datganiadau hyn yn gydnaws: os oes angen rheoleiddio cyson ar randdeiliaid organig ledled Prydain Fawr, ac y gallai rheoliadau organig yn y dyfodol a wneir gan Weinidogion Cymru alluogi rheoleiddio cyson, nid yw'n glir pam na all y rheoliadau a gynigir ar hyn o bryd hefyd gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Yn hyn o beth, gwnaethoch hefyd ddweud: "Petasai Cymru'n defnyddio OS sydd ond yn berthnasol i Gymru i estyn y rhanddirymiadau hyn, efallai na fydd yn bosibl sicrhau eu bod yn weithredol cyn i'r rhanddirymiad presennol ddod i ben". Fel rhan o Weithgor Cynhyrchion Organig y Pedair Gwlad, nid yw'n glir pam nad oeddech yn ymwybodol o'r angen i ymestyn y rhanddirymiadau mewn da bryd i alluogi paratoi rheoliadau Cymru'n unig a'u gosod gerbron y Senedd, ochr yn ochr â rheoliadau a osodwyd gerbron Senedd y DU. Gallai rheoliadau cyfochrog o'r fath fod wedi dod i rym ar yr un dyddiad, gan osgoi unrhyw anghysondeb ar draws Prydain Fawr.

Yn sgil yr uchod, a fyddech cystal â rhoi eglurhad pellach, felly, ynghylch pam na allech baratoi a gosod rheoliadau ar gyfer Cymru'n unig ochr yn ochr â rheoliadau a baratowyd gan Defra.

Yn olaf, a allwch egluro pam y cymerodd bedair wythnos i'n hysbysu o'r Rheoliadau hyn (a'ch penderfyniad i gydsynio iddynt) ar ôl i gais ffurfiol ddod i law ar 24 Hydref, a pham nad oeddech mewn sefyllfa i roi gwybod inni am eich bwriad i gydsynio yn llawer cynharach, o ystyried, yn ôl pob tebyg, bod yr angen i wneud y rheoliadau hyn yn cael ei drafod yn llawer cynharach yn y Gweithgor?

Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb erbyn 5 Ionawr 2023.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir



Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

**Y Pwyllgor Busnes**
—
**Business Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddBusnes@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
senedd.wales/SeneddBusiness
0300 200 6565

John Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

11 Ionawr 2023

**Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol**

Annwyl John,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 9 Rhagfyr 2022, yn tynnu sylw'r Pwyllgor Busnes at nifer y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol sydd wedi dod at eich Pwyllgor hyd yn hyn yn ystod y Chweched Senedd.

Trafododd y Pwyllgor Busnes y llythyr ar 13 Rhagfyr a nododd eich pryderon ynghylch effaith nifer y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol diweddar ar waith y pwyllgorau yn gyffredinol.

Mae pwyllgorau eraill wedi nodi'r defnydd cynyddol o Filiau'r DU a'r confensiwn cydsyniad deddfwriaethol i ddeddfu mewn meysydd datganoledig, ac mae'r mater hefyd wedi codi ar lawr y Senedd. Roeddwn i ac Aelodau eraill o'r Pwyllgor Busnes yn cytuno â'r pryderon a fynegwyd yn eich llythyr am yr effaith y mae'r defnydd cynyddol o'r broses Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ystod y Chweched Senedd hyd yma yn ei chael ar bwyllgorau'r Senedd. Rydym hefyd yn cytuno bod deddfwriaeth y Senedd, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, yn well mewn sawl ffordd, yn bennaf oherwydd ei bod yn caniatáu craffu llawn gan y Senedd. Rydym hefyd yn nodi'r cyfnod byr o amser sydd ar gael ar gyfer craffu ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol penodol yn ddiweddar, a'r effaith y mae hyn hefyd yn ei chael ar faint o waith craffu sy'n bosibl.

Yn yr un cyfarfod ag y gwnaethom drafod eich llythyr, cytunwyd i ysgrifennu at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd, i godi pryderon ynghylch y terfyn amser hynod gyfyng sydd ar gael ar gyfer craffu ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol penodol, a byddwn yn defnyddio’r llythyr hwnnw i bwysleisio i’r Llywodraeth pa mor bwysig yw sicrhau bod y Memoranda hyn yn cael eu cyflwyno mewn ffordd sy’n rhoi digon o amser i bwyllgorau graffu cyn bod gofyn i’r Senedd benderfynu a yw’n dymuno rhoi cydsyniad.

Byddaf yn amgáu copi o’r llythyr hwn i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, sydd wedi codi pryderon tebyg o’r blaen.

Yn gywir,



**Y Gwir Anrh Elin Jones AC**
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**
—
**Local Government and Housing Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
SeneddTai/SeneddTai
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

Elin Jones AS
Y Llywydd
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

8 Rhagfyr 2022

Annwyl Elin

Memoranda cydsyniad deddfwriaethol

Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn ystyried memoranda cydsyniad deddfwriaethol (Memoranda) ar hyn o bryd mewn perthynas â dau Fil: y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) a'r Bil Ffyniant Bro ac Adfywio. Rydym eisoes wedi ystyried tri Memorandwm arall, yn ogystal â nifer o Femoranda atodol, yn ystod y Chweched Senedd. Roedd ein pwyllgor rhagflaenol wedi ystyried cyfanswm o chwe Memorandwm drwy gydol y Bumed Senedd. O ganlyniad, cytunodd y Pwyllgor y dylwn ysgrifennu atoch i fynegi ein pryderon ynghylch y defnydd cynyddol o Filiau'r DU a chonfensiwn cydsyniad deddfwriaethol i ddeddfu mewn meysydd datganoledig, yn hytrach na thrwy ddeddfwriaeth y Senedd. Rwyf wedi mynegi pryderon y Pwyllgor i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Llywodraeth Cymru eisoes.

Mae deddfwriaeth sylfaenol a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru yn caniatáu gwaith craffu llawn gan y Senedd.

Fel Aelodau o'r Senedd, ein cyfrifoldeb ni yw sicrhau bod gwaith craffu trylwyr yn cael ei gynnal ar yr holl ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud â meysydd datganoledig a'i phrofi gyda rhanddeiliaid er mwyn sicrhau ei bod yn diwallu anghenion pobl Cymru. Credwn yn gryf nad yw'r amser byr a ddyrennir i'r broses cydsyniad deddfwriaethol yn ddigonol er mwyn ein galluogi i ddeall yn llawn beth fydd effaith darpariaethau ar fywydau pobl yng Nghymru. Ein pryder yw y gallai deddfu fel hyn roi pobl yng Nghymru o dan anfantais gan bod llai o gyfleoedd iddynt gyfleu eu barn i'r rhai sy'n gwneud y ddeddfwriaeth, ac nid oes gennym ddigon o amser i ymgynghori â rhanddeiliaid Cymru ar y darpariaethau.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Yn gywir

John

John Griffiths AS

Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CG/PO/8/2023

Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

12 Ionawr 2023

Annwyl Huw,

**BIL YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL (CYMRU)**

Diolch i chi a'r Pwyllgor am eich adroddiad manwl ac ystyriol ar y Bil, yr oeddwn yn falch o'i derbyn ychydig cyn y Nadolig. Byddaf yn ymateb yn llawnach yn y ddadl sydd i fod i gael ei chynnal ar 17 Ionawr.

Mae argymhelliad 10 yn adroddiad y Pwyllgor yn gofyn am eglurhad, cyn y ddadl, ar faterion sy'n ymwneud ag adran 2(3) o'r Bil. Hyderaf fod y llythyr hwn yn darparu'r wybodaeth y mae'r Pwyllgor yn ei geisio.

Mae adran 2 o'r Bil yn nodi ystyr "heneb" a "safle heneb"; mae isadran (3) yn dileu ystyried fel heneb unrhyw adeilad crefyddol sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd at ddibenion crefyddol.

Barn y Llywodraeth yw y byddai adran 2(3) o'r Bil yn dal i gydymffurfio â hawliau dynol heb y pŵer newydd i wneud rheoliadau. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth hefyd o'r farn fod bodolaeth y pŵer yn cryfhau cydymffurfiaeth adran 2(3).

O ran a yw'r pŵer i wneud rheoliadau yn newid bach, rydym yn cytuno â datganiad y Pwyllgor ym mharagraff 317 o'i adroddiad nad yw'r ddarpariaeth wedi'i chyfyngu i ddarparu eglurder. Ond rydym yn credu ei fod yn newid bach at ddibenion Rheol Sefydlog 26C. Gobeithio bod cynnig eglurhad pellach o'r rhesymeg y tu ôl i gynnwys y pŵer i wneud rheoliadau yn ddefnyddiol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nid yw’n fater syml. Mae’n ymwneud â llunio barn anodd am sut i ailddatgan y sefyllfa gyfreithiol bresennol yn gywir mewn ffordd mor hygyrch â phosibl.

Mae ein penderfyniad i osgoi efelychu ystyr ansicr presennol “eglwysig” yn adran 2 o’r Bil yn cyflwyno mater gwahanol y credwn fod angen mynd i’r afael ag ef wrth ddrafftio. Mae effaith geiriau agoriadol adran 61(8) o Ddeddf 1979 yn ansicr am y rhesymau a nodir yn fy llythyr ar 17 Hydref 2022. Mae’n fynegiant y mae modd ei ddehongli mewn mwy nag un ffordd, yn enwedig oherwydd effaith deddfwriaeth hawliau dynol.

Nid oes modd dehongli geiriad y ddarpariaeth sydd wedi’i ailddatgan yn y Bil mewn mwy nag un ffordd yn yr un modd: mynegwyd y rheol gyffredinol yn Adran 2(3) i fod yn berthnasol i grefyddau yn gyffredinol, dull sydd wedi’i seilio ar ein safbwynt cychwynnol, y dylai pob crefydd gael ei thrin yn yr un modd. Ond gallai dull sy’n seiliedig ar yr egwyddor gyffredinol honno yn unig gael effeithiau andwyol a gwahaniaethol yn ymarferol, yn dibynnu ar amgylchiadau achos penodol. Rydym felly wedi mabwysiadu’r farn bod hyblygrwydd yn briodol er mwyn caniatáu i Weinidogion addasu gweithrediad y rheol gyffredinol.

Mae angen i ni gydnabod hefyd ei bod yn bosibl y gallai cyfraith achosion yn y dyfodol sy’n effeithio ar ddehongli Siarter Hawliau Dynol Ewrop olygu’r angen am newid ymagwedd at adeiladau crefyddol mewn amgylchiadau penodol.

Wrth gwrs, byddai cyfyngiadau cyfreithiol hefyd ar arfer y pŵer hwnnw, er enghraifft, ni fyddai’n caniatáu i reoliadau danseilio’r rheol gyffredinol yn adran 2(3) o’r Bil a’i hamddifadu o unrhyw ystyr; hefyd, wrth gwrs, byddai’n rhaid i unrhyw reoliadau gydymffurfio â Siarter Hawliau Dynol Ewrop. Byddai unrhyw reoliadau a fyddai’n cael eu llunio o dan yr adran honno yn ddarostyngedig i’r weithdrefn gadarnhaol ac, yn unol â’n harfer sydd wedi hen ennill ei blwyf, byddai unrhyw newid mewn polisi yn destun ymgynghoriad priodol.

Am y rhesymau hyn, rwyf o’r farn mai mân newid i’r gyfraith yw cynnwys y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 2(3) o’r Bil.

Yn gywir,



**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

# Eitem 12

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CG/PO/9/2023

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@Senedd.Cymu

12 Ionawr 2023

Annwyl Huw,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 14 Rhagfyr yn gofyn am ymateb i gwestiynau pellach yn dilyn fy ymddangosiad ar 5 Rhagfyr mewn perthynas â Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio).

O ystyried bod y dyddiad cau i'ch pwyllgor adrodd ar y Bil bellach wedi cael ei estyn dair wythnos, ac er mwyn galluogi mwy o amser i ystyried ymateb yn awr yn dilyn toriad y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, byddaf yn ymateb erbyn 19 Ionawr.

Yn gywir,

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Mick Antoniw AS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

14 Rhagfyr 2022

Annwyl Mick

Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Cyfraith yr UE (Dirymu a Diwygio) - Gwaith dilynol i'r cyfarfod ar 5 Rhagfyr 2022

Diolch am ddod gerbron y Pwyllgor ar 5 Rhagfyr a rhoi tystiolaeth ar faterion yn ymwneud â Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) (y Bil).

Mae nifer o faterion nad oeddem yn gallu eu codi gyda chi yn ystod y cyfarfod. At hynny, mae materion yr hoffem fynd ar eu trywydd ymhellach.

Byddwn, felly, yn ddiolchgar o gael eich ymatebion i’r cwestiynau sydd wedi'u rhestru yn yr Atodiad erbyn 12 Ionawr 2023 (mae cyfeiriadau at Gofnod y Trafodion ar gyfer y sesiwn dystiolaeth wedi’u darparu lle y bo angen).

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd



Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Atodiad**

Cyfraith yr UE a ddargedwir a wnaed yng Nghymru

C1 – Gwnaethoch ddweud wrthym fod yn rhaid i ffocws Llywodraeth Cymru fod, yn gyntaf, ar sicrhau bod cyfraith ein hunain yr UE a ddargedwir yn cael ei dadansoddi a'i dargadw ac mai'r gyfraith sydd wedi'i gwneud yng Nghymru sy'n cael ffocws. (Cofnod y Trafodion, 242). A yw'r dadansoddiad hwnnw wedi'i gwblhau? Os nad yw, beth yw eich dyddiad targed i'w gwblhau?

Adolygu cyfraith yr UE a ddargedwir

C2 – Gwnaethoch chi a'ch swyddogion ddweud bod timau polisi Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'u timau cyfatebol yn Whitehall i ddadansoddi taenlenni o ddata a luniwyd gan yr adrannau yn Whitehall i weld a ydych yn cytuno â'r dadansoddiad hwnnw (Cofnod y Trafodion, 242 i 254). Beth yw'r dyddiad targed i gwblhau'r gwaith hwnnw?

Dull Llywodraeth Cymru

C3 - A yw Llywodraeth Cymru wedi cael sicrwydd gan Lywodraeth y DU na fydd yn newid nac yn dileu cyfraith yr UE a ddargedwir ddatganoledig heb gydsyniad Llywodraeth Cymru? Os felly, a yw Llywodraeth y DU yn bwriadu diwygio'r Bil i adlewyrchu'r ymrwymiad hwn?

C4 – Gwnaethoch ddweud wrthym os na chymerir mesurau i allu nodi a deall yr hyn y dymunir ei ddargadw, y bydd popeth arall yn mynd. (Cofnod y Trafodion, 295). At hynny, gwnaethoch ddweud nad ydych wedi penderfynu eto ar eich dull o ddargadw cyfraith yr UE a ddargedwir ond eich bod am sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar y meysydd pwysicaf.

a. Felly, a allwch gadarnhau nad ydych yn bwriadu arbed holl gyfreithiau'r UE a ddargedwir mewn meysydd datganoledig?

b. Ar ba sail y byddwch yn penderfynu pa feysydd sydd bwysicaf i Lywodraeth Cymru?

c. A allwch ddweud wrthym pa feysydd yw'r rhain neu, os na allwch, pryd y byddwch yn gallu dweud wrthym?

d. Beth yw'r risgiau i'r meysydd y bernir nad ydynt yn bwysig neu eu bod yn llai pwysig a sut y penderfynwyd arnynt?

e. Sut y byddwch yn lliniaru ac yn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â hyn, yn enwedig os nad ydych yn cynnal eich asesiad effaith eich hunan (Cofnod y Trafodion, 256)?

C5 - Gwnaethoch ddweud wrthym y gallech fabwysiadu dull brysbennu, lle rydych yn ceisio nodi'r meysydd y mae'n amlwg eu bod yn ymwneud â materion datganoledig fel y materion pwysicaf, yn

hytrach na materion technegol, er mwyn sicrhau y canolbwyntir ar y meysydd pwysicaf (Cofnod y Trafodion, 277). Beth yw ystyr materion technegol yn y cyd-destun hwn?

C6 – Gwnaethoch ddweud wrthym eich bod yn credu bod y Bil wedi creu cryn ansicrwydd i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae rhanddeiliaid wedi eich cyhuddo o fegino/waethygu hyn drwy beidio â nodi eich dull yn glir. I ba raddau y gallai Llywodraeth Cymru leihau'r ansicrwydd hwn?

C7 - Beth y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud i roi sicrwydd i randdeiliaid o'i strategaeth gyffredinol mewn perthynas â chyfraith yr UE a ddargedwir ac am y camau y mae'n eu cymryd i ymdrin â'u pryderon?

C8 - Gwnaethoch ddweud wrthym y bydd Llywodraeth Cymru am ddargadw cyfraith ac na fydd am i safonau ostwng. Felly, bydd am sicrhau ei bod yn dargadw safonau. (Cofnod y Trafodion, 277) Sut y byddwch yn cynnal neu'n gwella safonau os ydynt yn cael eu gwanhau neu eu lleihau o dan y Bil, naill ai drwy hepgoriad neu drwy gamau a gymerir gan Lywodraeth y DU?

Arbed cyfraith yr UE a ddargedwir

C9 – Gwnaethoch ddweud y daw'r cymhlethdod o wybod maint yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'w wneud. Er enghraifft, mewn maes enfawr â 3,800 neu fwy o ddarnau o ddeddfwriaeth, os yw Llywodraeth y DU yn penderfynu y dylai ddargadw nifer fawr ohonynt, mae hynny'n datrys rhan o'r broblem. Mae'n datrys rhan o'r broblem ac yn ei gwneud yn llawer haws rheoli'r meysydd sydd heb eu dargadw.

a. Mae hyn yn awgrymu i ni y bydd Llywodraeth Cymru yn gohirio penderfyniadau a chamau i Lywodraeth y DU wneud rheoliadau. A yw hyn yn gywir? Oes gennych bryderon am yr hyn y mae'r dull hwn yn ei olygu ar gyfer Cymru, gan gynnwys y Senedd?

b. A fydd Llywodraeth Cymru yn aros i weld yr hyn y mae Llywodraeth y DU yn ei arbed ac yn penderfynu wedyn ar yr hyn y mae angen iddi hi ei hun ei arbed?

Gwelliannau

C10 – Yn ogystal â'r gwelliant unigol i'r Bil rydym yn gwybod eich bod wedi gofyn amdano (mewn perthynas â gallu Gweinidogion Cymru i estyn dyddiad machlud hyd at 23 Mehefin 2026), gwnaethoch ddweud y byddech yn annog newidiadau sy'n rhoi'r gwarantau a geisiwyd a gwnaethoch sôn yn benodol am bwerau cydredol yn y Bil a phwerau swyddogion y gyfraith mewn llywodraethau datganoledig (Cofnod y Trafodion, 285). Gwnaethoch ddweud hefyd y byddai Llywodraeth Cymru yn gwneud y pethau arferol o ran sesiynau briffio a thrafodaethau, o ran ymgysylltu â Llywodraeth y DU a phartïon â buddiant, y byddant oll yn gwneud eu sylwadau eu hunain (Cofnod y Trafodion, 289).

a. Pa newidiadau penodol i'r Bil ydych yn eu ceisio?

b. A allwch gadarnhau eich bod wedi gwneud ceisiadau ffurfiol i Lywodraeth y DU ac, os nad ydych wedi, pryd y byddwch yn gwneud hynny?

c. Pam nad yw eich newidiadau arfaethedig wedi'u nodi yn eich Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, sy'n rhestru un gwelliant yn unig, i'w ystyried gan y Pwyllgor hwn a'r Senedd ehangach?

d. Gwnaethoch ddweud y gallwn ddisgwyl i Lywodraeth Cymru gyflwyno mwy o welliannau a'ch bod wedi'u nodi. Pryd y bydd y Senedd yn cael cyfle i graffu arnynt?

e. Rydych yn sôn mai opsiwn sydd ar gael i Lywodraeth Cymru yw dibynnu ar eraill i gyflwyno gwelliannau sy'n adlewyrchu eich safbwynt, yn hytrach na gweithredu ar y cyd. A allech roi mwy o wybodaeth am hyn a chadarnhau pwy yw 'eraill' yn y cyd-destun hwn?

C11 – O dan gymal 15 o'r Bil, bydd Gweinidogion yn cael eu hatal rhag cynyddu'r baich rheoleiddio wrth ddirymu neu amnewid cyfraith yr UE a ddargedwir. Gwnaethoch sôn bod hyn yn gyfyngiad sy'n gwbl annerbyniol (Cofnod y Trafodion, 269). Felly, pam nad ydych wedi gofyn am welliant i ddileu'r cyfyngiad hwn o'r Bil?

C12 – Rydych wedi gwneud sylwadau o'r blaen am y pwerau enfawr a fydd yn cael eu rhoi i Weinidogion drwy'r Bil hwn. Gwnaethoch ddweud wrthym fod y rhain yn bwerau na fyddai'n ddymunol, dan amgylchiadau arferol, eu rhoi i lywodraethau. At hynny, gwnaethoch ddweud nad yw'n gwestiwn a yw Llywodraeth Cymru am eu cael. Mae'n debyg na fydd dewis – bydd yn rhaid arfer y pwerau er mwyn dargadw deddfwriaeth sy'n cynnal safonau, pethau rydym yn gytûn arnynt mewn meysydd datganoledig (Cofnod y Trafodion, 291). A ydych wedi gofyn i'r Bil gael ei ddiwygio er mwyn codi'r gweithdrefnau craffu sy'n gysylltiedig â'r pwerau os yw Gweinidogion Cymru yn eu harfer, a phryd y cânt eu harfer?

<u>Ymwahanu ac anghydfodau</u>

C13 – A ydych wedi nodi meysydd lle y mae gennych fwriadau polisi sy'n ymwahanu â rhai llywodraethau eraill y DU?

C14 – Pan wnaethom ofyn i chi sut y gellid datrys anghydfodau, gwnaethoch ddweud wrthym ei bod yn annhebygol y bydd y broses rynglywodraethol newydd sydd wedi'i sefydlu yn arbennig o ddelfrydol ac efallai y gellir creu rhywbeth yn benodol i geisio datrys yr anghytundebau (Cofnod y Trafodion, 279).

a. A allwch egluro pam na fyddai'r strwythurau a grëwyd yn ddiweddar ar gyfer datrys anghydfod rhynglywodraethol y strwythurau priodol i'w defnyddio i ddatrys anghydfodau yn y maes hwn?

b. A allwch chi gadarnhau, lle y bo’n berthnasol, y byddai anghydfodau’n mynd drwy broses berthnasol y fframweithiau cyffredin yn y lle cyntaf?

c. O gofio’r angen am gamau amserol oherwydd y dyddiad machlud 31 Rhagfyr 2023, pa mor realistig ydyw y gellid creu proses datrys anghydfod newydd?

Capasiti ac adnoddau

C15 - Dywedodd y Prif Weinidog wrth y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog ar 9 Rhagfyr, gan nad oes gan Lywodraeth Cymru gapasiti dros ben, y bydd angen capasiti dargyfeiriedig o'i rhaglen ddeddfwriaethol i weithio ar y Bil. O gofio sylwadau'r Prif Weinidog, pryd y bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud ynghylch pryd a ble y bydd adnoddau'n cael eu dargyfeirio, ac a fyddwch yn ymrwymo i ddiweddaru'r Senedd cyn gynted ag y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud?

C16 – Gwnaethoch ddweud wrthym fod Llywodraeth Cymru am gyflawni ei rhaglen ddeddfwriaethol ond bod ansicrwydd ynghylch y galw y bydd y Bil yn ei roi ar adnoddau. A ydych yn cydgysylltu trafodaethau'r Cabinet ynghylch eich pryderon am gyflawni'r rhaglen ddeddfwriaethol?

Effaith a rôl y Senedd

C17 – Gwnaethoch ddweud hefyd eich bod yn credu bod un peth yn glir: mae'n gwneud y math o waith craffu manwl a'r amserlen ar gyfer hynny'n hynod anodd a bod yn rhaid edrych ar sut y bydd hynny'n gweithio. Gwnaethoch ddweud wrthym y bydd angen cydweithio’n agos iawn rhwng y Llywodraeth a'r Senedd o ran dealltwriaeth o’r hyn yn union sy'n ofynnol, yr hyn sy'n digwydd a’r ffordd orau o reoli hynny. Nid yw'n fater i Lywodraeth Cymru yn unig; yn amlwg, mae'n fater i'r Senedd ei hun, o ran sut y mae'n craffu ac yn asesu'r camau hefyd (Cofnod y Trafodion, 307).

a. Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd craffu a roddir i'r Senedd?

b. Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cynnwys y Senedd wrth benderfynu ar yr hyn sy'n ofynnol o ganlyniad i'r Bil?

C18 – Ni wnaethoch gadarnhau i ni eich bod yn cysylltu â'r Llywydd a'r Pwyllgor Busnes ynghylch yr effaith bosibl ar amserlen y Senedd. A allech gadarnhau bod trafodaethau'n cael eu cynnal? Os nad ydynt, a yw Llywodraeth Cymru yn aros am eglurder gan Lywodraeth y DU cyn gwneud hynny?

Tirwedd reoleiddiol

C19 - A fyddai'r Bil yn cyflwyno terfyn rheoleiddiol?

C20 - Sut y gallai’r Bil effeithio ar bolisïau Llywodraeth Cymru a’i gallu i wella safonau, lle y bo’n bosibl, ar ôl Brexit?

C21 - Mae Llywodraeth y DU wedi nodi na fydd mesurau diogelu amgylcheddol yn cael eu gwanhau ac y gall y gwledydd datganoledig gadw deddfwriaeth o fewn eu cymhwysedd. Pa fesurau diogelu amgylcheddol y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cadw?

Rhanddeiliaid

C22 - Gwnaethoch ddweud wrthym y bydd yn rhaid ymgysylltu â rhanddeiliaid oherwydd y bydd yn rhaid cael dealltwriaeth o rai o'r camau sydd wedi'u cymryd. Gwnaethoch ddweud mai'r broblem yw nad yw'n gwbl glir â phwy y bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu, i ba raddau, ac ym mha fframwaith. (Cofnod y Trafodion, 350)

a. A allech egluro a yw Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y Bil ar hyn o bryd, neu pryd y mae'n bwriadu gwneud os nad yw'n gwneud hynny eto?

b. Gwnaethoch nodi amaethyddiaeth a'r amgylchedd fel meysydd lle y bydd ffocws mawr yr ydych yn rhagweld y byddant yn ddwys iawn (Cofnod y Trafodion, 323). A yw Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y meysydd hyn?

c. Sut y byddwch yn ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn penderfynu pa faterion sy'n bwysig iddynt?

Y Bil Amaethyddiaeth

Gwnaethoch ddweud wrthym fod y Bil Amaethyddiaeth yn cynnwys elfennau o gyfraith yr UE a ddargedwir, ac y bydd materion yn codi yn ystod y broses hon y mae angen mynd i'r afael â hwy; nid yw'n glir beth y gallent fod ar hyn o bryd (Cofnod y Trafodion, 335).

C23 - Pam oedd yn briodol defnyddio'r Bil Amaethyddiaeth fel cyfrwng i ddarparu pwerau eang i Weinidogion Cymru ddiwygio cyfraith yr UE a ddargedwir pan nad yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal dadansoddiad o oblygiadau Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir yn y maes polisi hwn?

C24 - Ai bwriad Llywodraeth Cymru yw arbed cyfraith yr UE a ddargedwir y mae'r Bil Amaethyddiaeth yn dibynnu arni o dan Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir? Beth sy'n digwydd os yw cyfraith yr UE a ddargedwir y mae'r Bil yn dibynnu arni'n cael ei dirymu gan Lywodraeth y DU? A yw Llywodraeth y DU yn ymwybodol o angen Llywodraeth Cymru i gyfraith yr UE a ddargedwir barhau i fod ar waith er mwyn gweithredu'r Bil Amaethyddiaeth?

C25 - Pryd ydych yn disgwyl bod mewn sefyllfa i ddeall ehangder a manylion materion y mae angen mynd i'r afael â hwy yn ystod taith Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir/y Bil Amaethyddiaeth?

C26 - Ai eich bwriad chi yw gwneud gwelliannau i'r Bil Amaethyddiaeth i fynd i'r afael â materion o'r fath?

C27 - A yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu mabwysiadu'r dull hwn o gymryd pwerau gweithredol eang i fynd i'r afael ag ansicrwydd cyfraith yr UE a ddargedwir, yn hytrach na chyflwyno deddfwriaeth sylfaenol pan fydd y darlun yn gliriach?

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Y Llywydd
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

21 Rhagfyr 2022

Annwyl Lywydd

Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)

Bydd y Pwyllgor Busnes yn ymwybodol o ddiddordeb fy Mhwyllgor ym Mil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) ('y Bil'), ac rydych felly wedi cyfeirio memorandwm cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil atom i graffu arno.

Mae'n debyg y byddwch hefyd yn ymwybodol o sylwadau a wnaed gan y Cwnsler Cyffredinol, Mick Antoniw AS, yn y Cyfarfod Llawn yn y misoedd diwethaf am y tebygolrwydd y bydd y Bil yn arwain at raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn cael ei llethu bron yn gyfan gwbl, y goblygiadau enfawr i Lywodraeth Cymru o safbwynt ariannol ac o ran adnoddau, a'r ffaith y bydd llawer iawn o waith yn cael ei greu ar gyfer fy Mhwyllgor.

Ar 5 Rhagfyr cawsom dystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol ar y Bil a memorandwm cydsyniad deddfwriaethol cyfatebol Llywodraeth Cymru.

Soniodd y Cwnsler Cyffredinol unwaith eto am ei bryderon y gallai'r broses o weithredu'r Bil lethu Llywodraeth Cymru pe bai'n cael ei basio a'i ddeddfu. Trafodwyd pryderon ynghylch y goblygiadau i Fusnes y Senedd ac i raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ei hun yn ystod ein cyfarfod hefyd.


Rhannodd y Cwnsler Cyffredinol ei farn â ni bod gwneud gwaith craffu manwl, a'r amserlen ar gyfer y gwaith craffu hwnnw, yn edrych yn eithriadol o anodd. Dywedodd y byddai'n ymrwymo i drafodaethau manwl gyda'r Senedd ynghylch maint y gwaith y gallai fod ei angen unwaith y bydd goblygiadau llawn y Bil yn hysbys. Ategwyd y pryderon hyn gan y Prif Weinidog ar 9 Rhagfyr mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog.

Mae fy Mhwyllgor hefyd wedi cael tystiolaeth gan randdeiliaid sydd wedi nodi pryderon penodol ynghylch cyflawni gofynion y Bil o ystyried ei amserlen heriol.

Rydym wedi ysgrifennu at y Cwnsler Cyffredinol yn gofyn cwestiynau pellach am y Bil a dull gweithredu Llywodraeth Cymru, a hefyd rôl y Senedd a’r effaith arni. Byddwn yn eich diweddaru gyda gwybodaeth berthnasol.

Er ein bod yn dal i ystyried y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil, ac yn debygol o gyflwyno adroddiad i’r Senedd ym mis Chwefror, rydym o’r farn bod angen tynnu eich sylw cyn gynted â phosibl at bryderon Llywodraeth Cymru ynghylch y goblygiadau posibl ar gyfer Busnes y Senedd yn 2023 – o ran fy Mhwyllgor i a fydd yn gyfrifol am graffu ar unrhyw reoliadau gofynnol ac o ran Pwyllgorau eraill a fydd am ddylanwadu yn gyntaf ar brosesau penderfynu Llywodraeth Cymru.

Yn gywir,



Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**
—
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Grant Shapps AS
Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol
Nusrat Ghani AS
Y Gweinidog Diwydiant a Diogelwch Buddsoddiadau

21 Rhagfyr 2022

Annwyl gyfeillion

Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)

Mae fy Mhwyllgor i, ers peth amser, wedi bod yn cadw llygad ar gynllun Llywodraeth y DU ar gyfer cyfraith yr UE a ddargedwir, a gwnaethom ddechrau gofyn cwestiynau i Lywodraeth Cymru rai misoedd yn ôl.

Byddwch yn gwerthfawrogi mai’r hyn sy’n destun pryder i ni, fel deddfwyr, yw’r ffaith y byddai'r Bil yn galluogi Gweinidogion, yn hytrach na seneddau, i newid tirwedd reoleiddio a chyfreithiol y DU yn sylweddol.

Gyda’r Bil yn cael ei osod gerbron Senedd y DU, a chan ragweld y byddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno’r memorandwm cydsyniad sy’n debygol o fod yn angenrheidiol, cytunodd fy Mhwyllgor i geisio safbwyntiau rhanddeiliaid yng Nghymru a ledled y DU ar nifer o faterion, gan gynnwys i ba raddau y gallai’r Bil effeithio ar dirwedd reoleiddiol Cymru; penderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â chynnal ei hasesiad ei hun o gyfraith yr UE a ddargedwir; ac a allai’r Bil gyflwyno cyfyngiadau newydd i Lywodraeth Cymru, sydd am wella’r safonau a oedd ar waith cyn Brexit, lle bo modd.

Mae rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon mawr inni ynghylch maint y dasg dan sylw a’r pwysau sylweddol a achosir gan ddyddiad machlud a ystyrir gan lawer fel un cwbl ddiangen, sef 31 Rhagfyr 2023. Mae'r dystiolaeth sydd wedi dod i law ar gael ar ein gwefan.

Yn y misoedd diwethaf mae Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru, Mick Antoniw AS, wedi gwneud sylwadau ar y tebygolrwydd y bydd y Bil yn arwain at raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn

cael ei llethu bron yn gyfan gwbl, ac ar y goblygiadau enfawr i Lywodraeth Cymru o safbwynt ariannol ac o ran adnoddau.

Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi gosod y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol sydd ei angen ar gyfer y Bil gerbron y Senedd ac mae fy Mhwyllgor yn arwain y gwaith o'i ystyried.

Ar 5 Rhagfyr cawsom dystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol ar y Bil a memorandwm cydsyniad deddfwriaethol cyfatebol Llywodraeth Cymru. Soniodd y Cwnsler Cyffredinol unwaith eto am ei bryderon y gallai'r broses o weithredu'r Bil lethu holl lywodraethau'r DU pe bai'n cael ei basio a'i ddeddfu. Ategwyd y pryderon hyn gan y Prif Weinidog ar 9 Rhagfyr mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog.

Er ein bod yn cadw'r hawl i ddal yn ôl ein sylwadau llawn ar y Bil, a memorandwm cydsyniad deddfwriaethol cyfatebol Llywodraeth Cymru, hyd nes y byddwn yn gallu cyhoeddi adroddiad cynhwysfawr yn y flwyddyn newydd, am resymau pragmatiaeth, byddem yn eich annog i wrando ar randdeiliaid ac ailystyried y dyddiad machlud o 31 Rhagfyr 2023 sydd wedi'i gynnwys yn y Bil. At hynny, ac eto er nad ydym wedi ystyried yn llawn holl oblygiadau'r Bil ar gyfer datganoli yng Nghymru a'r Senedd, ar hyn o bryd ni allwn weld unrhyw reswm pam na ddylai'r pŵer i ymestyn y dyddiad machlud, sydd wedi'i gynnwys yng nghymal 2, gael ei roi i Weinidogion Cymru hefyd ar gyfer materion datganoledig.

Rydym yn ymwybodol o ohebiaeth rhwng Ms Ghani a Phwyllgor y Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant (CEEAC) Senedd yr Alban. Mewn llythyr dyddiedig 13 Rhagfyr 2022, mae Ms Ghani yn nodi y bydd tystiolaeth ysgrifenedig ar y Bil yn cael ei rhoi i Bwyllgor CEEAC gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol. Byddem yn croesawu tystiolaeth ysgrifenedig debyg, yn enwedig o ran y cydweithio rhynglywodraethol gyda Llywodraeth Cymru ac effaith y Bil ar feysydd datganoledig yng Nghymru. Byddem yn ddiolchgar pe gellir cael hwn cyn gynted â phosibl er mwyn llywio ein hadroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru erbyn 9 Chwefror 2023.

Ar ôl iddo gael ei gyhoeddi, byddaf yn rhannu copi o adroddiad fy Mhwyllgor ar y Bil gyda chi.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad yn Llywodraeth Cymru, ac at Bwyllgor y Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

16 Rhagfyr 2022

Annwyl Huw,

Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor yn y broses barhaus o graffu ar Gam 1 y Bil Amaethyddiaeth (Cymru), rwyf am roi pwyntiau o eglurhad ar nifer o faterion eraill sy'n ymwneud â sesiwn dystiolaeth 21 Tachwedd i gynorthwyo'r pwyllgor wrth ystyried eu hadroddiad.

**Ymgynghoriadau**

Fe ddywedais "rydym wedi gwneud sawl ymgynghoriad, ac rydym wedi cael y tri ymarfer ymgynghori hynny a hefyd y Papur Gwyn". Er mwyn egluro hyn, bu tri ymarfer ymgynghori ffurfiol; Brexit a'n Tir (2018), Ffermio Cynaliadwy a'n Tir (2019) a'r Papur Gwyn a ganolbwyntiodd ar bolisi amaethyddol Cymru yn y dyfodol. Hefyd, rydym wedi dod â'r arolwg, gweithdai a chyfweliadau a ffurfiodd yr ail rownd o gyd-ddylunio ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) i ben yn ddiweddar ac rydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiad llawn yn 2023.

**Rheoli Tir Cynaliadwy**

Trafodwyd yr amcanion sydd ar wyneb y Bil (adran 1) ac ystyr Rheoli Tir Cynaliadwy ("SLM") yn y pwyllgor. Rwy'n darparu ymateb llawnach ac yn ehangu ar yr amcanion hynny a'r ddyletswydd a roddir ar Weinidogion Cymru isod er gwybodaeth.

Dyma amcanion SML:

(1) Y nod cyntaf yw cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy.

(2) Yr ail nod yw lliniaru ac addasu i newid hinsawdd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

(3) Y trydydd nod yw cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r buddion y maent yn eu darparu.

(4) Y pedwerydd nod yw gwarchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hybu mynediad y cyhoedd atynt ac ymgysylltu â hwy, a chynnal y Gymraeg a hybu a hwyluso y defnydd ohoni.

Ym mhob achos, bwriad gwneud hynny yw (a) diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain, a (b) cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae dyletswydd SLM (adrannau 2 a 3) yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogaethau penodol[1] gael eu harfer mewn ffordd benodol - h.y. yn y ffordd y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried y ffordd orau o gyfrannu at gyflawni amcanion SLM. Mae hyn yn ffocysu camau i gyfrannu at sicrhau canlyniadau penodol. Mae'n drothwy uchel, ac wrth wneud hynny, mae'n ofynnol arfer disgresiwn yn y ffordd y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried yw'r ffordd orau o gyfrannu at gyflawni amcanion SLM (yn llawn), i'r graddau y bydd yn gyson ag arfer y swyddogaeth yn briodol.

Ychwanegir at ddyletswydd ac amcanion SLM gan ddarpariaethau monitro ac adrodd manwl, sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer dangosyddion a thargedau i'w paratoi, eu cyhoeddi a'u gosod gerbron y Senedd. Bydd y dangosyddion a'r targedau yn galluogi mesur datblygiadau, a fydd yn ei dro yn cael ei ddefnyddio i asesu ac adrodd ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni amcanion SLM. Wrth baratoi neu ddiwygio dangosyddion a thargedau, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ac unrhyw bersonau eraill y mae'n briodol eu hystyried yn eu barn hwy. Rhaid i'r adroddiad cyntaf gael ei gyhoeddi a'i osod gerbron y Senedd erbyn 31 Rhagfyr 2026 fan bellaf, a rhaid i adroddiadau dilynol gael eu cyhoeddi a'u gosod gerbron y Senedd bob 5 mlynedd o leiaf. Gyda'i gilydd, bwriad y darpariaethau monitro ac adrodd hyn yw darparu tystiolaeth bwysig ar gyfer datblygu polisi, a chyfranogiad a chraffu effeithiol gan y Senedd, rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn ehangach.

Byddwn hefyd yn ailadrodd deddfwriaeth "gwnaed yng Nghymru" sydd wedi llywio datblygiad SLM (yn benodol, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016), a'r ymateb polisi i'r argyfyngau hinsawdd a natur a ddatganwyd gan y Senedd.

Hefyd, er mwyn egluro i'r pwyllgor, mae'r darpariaethau SLM yn darparu fframwaith ar gyfer arfer rhai swyddogaethau, a rhaid arfer y swyddogaethau hynny, gan gynnwys y pŵer i ddarparu cefnogaeth, mewn ffordd sy'n gyson â'r ddyletswydd SLM, ond nid yw'r darpariaethau SLM yn sail i'r gefnogaeth a ddarperir.

[1] Y swyddogaethau y cyfeirir atynt yw, (a) swyddogaethau o dan y Ddeddf, (b) swyddogaethau o dan unrhyw ddeddfiad arall sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddarparu cymorth i (i) amaethyddiaeth, neu weithgareddau eraill a wneir ar dir a ddefnyddir ar gyfer gweithgareddau amaeth, neu (ii) gweithgareddau ategol; (c) swyddogaethau o dan unrhyw ddeddfiad arall sy'n ei gwneud yn ofynnol neu yn caniatau i Weinidogion Cymru reoleiddio (i) amaethyddiaeth, neu weithgareddau eraill a wneir ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth, neu (ii) gweithgareddau ategol (adran 2). Mae hyn yn ddarostyngedig i rai eithriadau sy'n ymwneud â'r cynllun taliad sylfaenol fel y nodir yn adran 3.

**Adran 32 a 33 Darpariaethau gorfodi**

Tynnais sylw at y gwahanol ddarpariaethau gorfodi ar gyfer gwahanol faterion ac roeddwn i'n meddwl y gallai fod yn werthfawr darparu rhai enghreifftiau i dynnu sylw at pam nad yw'r holl ddarpariaethau unigol ar wyneb y bil.
Mae rhai enghreifftiau o'r rheoliadau gorfodi cyfredol sydd wedi'u gwneud gan ddefnyddio pwerau a oedd wedi'u cynnwys yn flaenorol o fewn deddfwriaeth Ewropeaidd yn cynnwys:

- Rheoliadau Marchnata Wyau a Chywion (Cymru) 2010

- Rheoliadau Dofednod (Cymru) 2011

- Rheoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) 2011

Mae'r rhain i gyd yn fathau gwahanol iawn o gynnyrch ac yn cynrychioli dim ond ychydig o'r mathau hynny o gynnyrch fydd y darpariaethau o fewn y bil yn darparu'r pwerau i safonau marchnata ar eu cyfer. Fy marn i yw y byddai'r darpariaethau'n rhy hir ar wyneb y Bil i ddarparu rheoleiddio ar gyfer yr holl gynhyrchion y mae safonau marchnata penodol yn berthnasol ar eu cyfer.

Mae'r Atodlen i'r Bil yn darparu rhestr o gynhyrchion y gellir gwneud safonau marchnata ar eu cyfer, ac er y gellir diwygio'r rhestr hon o gynhyrchion, byddai hyn drwy reoliadau'n cael eu gwneud o dan y weithdrefn gadarnhaol sy'n caniatáu craffu llawn ar y Senedd, yn ogystal â gwneud rheoliadau yn nodi'r drefn orfodi ar gyfer y materion pwnc penodol.

Felly, rydym wedi creu fframwaith sy'n cynnwys cryn dipyn o fanylion, a rhestr o gynhyrchion y gellir gwneud trefn orfodi ar eu cyfer yn ogystal â'r hyblygrwydd i deilwra'r drefn honno i'r math o gynnyrch, gyda'r craffu ar y Senedd drwy ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol.

Yn yr un modd, mae dosbarthiad carcas yn ystyried moch, gwartheg a defaid. Ond mae'r carcasau hyn yn cydymffurfio â safonau gwahanol ac felly mae’n bosibl eu bod yn defnyddio trefniadau gorfodi gwahanol.

**Adran 43 Trapiau Glud**

Hoffwn hefyd ddod ag un pwynt arall o eglurder at sylw'r pwyllgor ynglŷn â'r cwestiynau a godwyd ar ymgynghoriad Awdurdodau Lleol (ALl) ar Drapiau Glud.  Gwnaethom gysylltu â phob un o'r 22 ALl ond ni atebodd pob un. Roedd yr ymatebion yn cynnwys saith o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru i'r ymgynghoriad rhanddeiliaid a dargedwyd. O'r rhain, ymatebodd pump i ddatgan mai anaml y byddan nhw'n defnyddio trapiau glud a dim ond mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn.

Yn gywir,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

7 Rhagfyr 2022

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr ar 25 Tachwedd am sesiwn dystiolaeth y pwyllgor ddydd Llun 21 Tachwedd am Fil Amaethyddiaeth (Cymru).

Rwyf wedi ystyried cwestiynau pellach y pwyllgor yn ofalus ac er mwyn eich helpu i ystyried y Bil rwyf wedi darparu'r wybodaeth yn yr atodiad sydd ynghlwm â'r llythyr hwn.

Cofion,

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain ar oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Bydd unrhyw ohebiaeth sy'n dod i law yn y Gymraeg yn cael ei ateb yn y Gymraeg ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi cyn ymateb.

**Atodiad: Ymateb i gwestiynau pellach gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Fil Amaethyddiaeth (Cymru) am dystiolaeth - Rhag 22**

| **1. A fyddech cystal â nodi, ar gyfer pob pŵer gwneud rheoliadau yn y Bil, pryd yr ydych yn bwriadu defnyddio'r pŵer hwnnw gyntaf i wneud y rheoliadau perthnasol?** |
|---|
| Oherwydd rhai o gymhlethdodau'r darpariaethau, penderfynwyd wrth ddrafftio'r Bil y byddai rhai darpariaethau'n cychwyn yn awtomatig ac y byddai rhai'n cychwyn drwy Orchymyn.<br><br>Ein bwriad yw cychwyn y rhai drwy Orchymyn ddeufis ar ôl rhoi'r Cydsyniad Brenhinol (ynghyd â'r rhan fwyaf o'r darpariaethau awtomatig), felly ni fydd gwahaniaeth o ran amseru, dim ond y cyfrwng ar gyfer eu cychwyn.<br><br>Mae'r darpariaethau sy'n ymwneud â Rheoli Tir yn Gynaliadwy ("SLM"), Pŵer Gweinidogion Cymru i Ddarparu Cymorth, Pwerau i Addasu Deddfwriaeth sy'n ymwneud â Chymorth Ariannol a Chymorth Arall, Tenantiaethau Amaethyddol a Bywyd Gwyllt yn dod i rym ddeufis ar ôl rhoi'r Cydsyniad Brenhinol i'r Bil.<br><br>Bydd pob darpariaeth arall yn y Bil (megis casglu a rhannu data) yn dod i rym drwy Orchymyn cychwyn ar wahân.<br><br>Daw rhai darpariaethau yn Rhan 4 sy'n ymwneud â Choedwigaeth i rym y diwrnod ar ôl dyddiad rhoi'r Cydsyniad Brenhinol i'r Bil at ddiben gwneud rheoliadau o dan adran 32 o Ddeddf 1967. Daw'r darpariaethau coedwigaeth eraill i rym drwy Orchymyn cychwyn ar wahân.<br><br>Mae nifer o bwerau i wneud rheoliadau yn y Bil sy'n cael eu disgrifio isod:<br><br>**Rhan 1 – Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM):**<br><br>Adran 6(10) – pŵer i ddiwygio adran 6(9), sy'n diffinio'r "cyfnod adrodd" ar gyfer adroddiadau SLM. Daw cyfnod adrodd yr adroddiad cyntaf i ben ar 31 Rhagfyr 2025 a chyhoeddir adroddiadau dilynol bob pum mlynedd wedi hynny. Nid oes cynlluniau ar y gweill i ddiwygio cyfnod adrodd SLM. Gellir defnyddio'r pŵer, er enghraifft, i alinio â'r pŵer i ddarparu Adroddiad ar Effaith y Cymorth (adran 13) pe bai anghysondeb o ran amser.<br><br>**Rhan 2 Pennod 1 - Pŵer i Ddarparu darpariaethau Cymorth**<br><br>Adran 8(4) – pŵer i ddiwygio'r rhestr o ddibenion. Nid oes unrhyw gynlluniau ar y gweill i ddiwygio'r rhestr o ddibenion. Fodd bynnag, ar ôl gwerthuso'r cymorth a |

ddarperir, efallai y gwelir nad yw'r dibenion, neu rai ohonynt, yn ateb eu diben mwyach.  Os felly, os oes angen, gellid defnyddio'r pŵer gwneud rheoliadau i ychwanegu diben, dileu diben neu newid disgrifiad diben ar y rhestr.

Adran 10(1) – Cyhoeddi gwybodaeth am gymorth. Nid oes dyddiad wedi'i bennu ar gyfer pryd y caiff y pŵer hwn ei ddefnyddio gyntaf.

Adran 11(1) – pŵer i wneud darpariaeth ynghylch cadarnhau pwy sy'n gymwys am gymorth (a materion eraill). Nid oes dyddiad wedi'i bennu ar gyfer pryd y caiff y pŵer hwn ei ddefnyddio gyntaf.

Adran 13(7) – Pŵer i ddiwygio cyfnod adrodd yr Adroddiad Effaith yn adran 13(6). Nid oes cynlluniau ar y gweill i ddefnyddio'r pŵer hwn. Mae darpariaethau'r Adroddiad Effaith eisoes yn darparu ar gyfer cyfnod adrodd cyntaf estynedig sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2029 a phob pum mlynedd wedi hynny i gyd-fynd â chyfnod adrodd SLM. Gellid eu defnyddio, er enghraifft, pe bai anghysondeb o ran amseru â'r adroddiad SLM.

**Rhan 2 Pennod 2 - pwerau i addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud â chymorth ariannol a chymorth arall**

Fel yr wyf wedi'i nodi yng nghwestiwn 2**,** nid yw'n fwriad gennym wneud newidiadau nes y gallwn brofi bod system newydd wedi'i chynllunio'n ddigonol, ein bod wedi cynnal yr asesiadau effaith perthnasol a'n bod yn hyderus ei bod yn weinyddol ymarferol.

Y pŵer i addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud â chymorth i gynllun gwenyniaeth sy'n rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir. Nid oes cynlluniau ar y gweill i addasu'r ddeddfwriaeth hon.

**Rhan 2 Pennod 3 - Ymyrryd mewn Marchnadoedd Amaethyddol**

Adrannau 20 a 21 – darpariaethau ar gyfer datgan amodau eithriadol yn y farchnad a darparu cymorth ariannol i gynhyrchwyr amaethyddol mewn amodau o'r fath. Nid oes dyddiad wedi'i bennu ar gyfer pryd y caiff y pwerau hyn eu defnyddio gyntaf.

Adran 22 – Darpariaeth i newid cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud ag ymyrraeth gyhoeddus yn y farchnad a chymorth ar gyfer storfeydd preifat.

Mae Gweinidogion Cymru am ddiwygio'r darpariaethau hyn am y rhesymau a eglurir yn yr ateb i Gwestiwn 18. Mae'r newidiadau sydd ar y gweill i gyfraith yr UE a ddargedwir sy'n rheoli ymyrraeth gyhoeddus yn y farchnad a chymorth ar gyfer storfeydd preifat yn deillio o bwerau yn Neddf Amaethyddiaeth 2020, gan na fydd y

darpariaethau ym Mil Amaethyddiaeth (Cymru) wedi dod i rym pan fydd angen gwneud y newidiadau hynny. Does dim dyddiad wedi'i bennu ar gyfer pryd y caiff y pwerau ym Mil Amaethyddiaeth (Cymru) eu defnyddio gyntaf.

**Rhan 3 Pennod 1 - Casglu a rhannu data:**

Adran 24(2) – Darparu gwybodaeth sy'n ymwneud â'r Cyflenwad Bwyd-Amaeth. Nid oes dyddiad wedi'i bennu ar gyfer pryd y caiff y pŵer hwn ei ddefnyddio.

Adran 26(2) – Darparu gwybodaeth am weithgareddau perthnasol. Nid oes dyddiad wedi'i bennu ar gyfer pryd y caiff y pŵer hwn ei ddefnyddio gyntaf.

Adran 31(1) – Darpariaeth ar gyfer gorfodi gofynion gwybodaeth. Unwaith eto nid oes dyddiad wedi'i bennu ar gyfer pryd y caiff y pŵer hwn ei ddefnyddio gyntaf, ond disgwylir iddo gyd-fynd â'r pwerau gwneud rheoliadau yn adrannau 24(2) a 26(2).

**Rhan 3 Pennod 2 - Safonau Marchnata**

Adrannau 32(1) a 32(6) – darpariaeth ynghylch y safonau y bydd gofyn i'r cynhyrchion amaethyddol a restrir yn Atodlen 1 gydymffurfio â nhw a darpariaeth i ddiwygio Atodlen 1. Nid oes dyddiad wedi'i bennu ar gyfer pryd y caiff y pwerau hyn eu defnyddio gyntaf.

**Rhan 3 Pennod 3 – Categoreiddio Carcasau**

Adran 33(1) - darpariaeth ynghylch categoreiddio, adnabod a chyflwyno carcasau gwartheg, moch a defaid. Nid oes dyddiad wedi'i bennu ar gyfer pryd y caiff y pwerau hyn eu defnyddio gyntaf. Rydym yn bwriadu creu rheoliadau ar gategoreiddio carcasau defaid, ond gan ddefnyddio'r pwerau yn Neddf Amaethyddiaeth 2020, gan na fydd darpariaethau yn y Bil hwn wedi dod i rym pan ddisgwylir cyflwyno'r rheoliadau hyn.

**Rhan 6: Cyffredinol**

Adran 50 – Yn darparu'r pŵer i newid ystyr "amaethyddiaeth" (adran 48) a "gweithgaredd ategol" (adran 49). Nid oes cynlluniau i newid y diffiniadau hyn ar hyn o bryd. Datblygwyd y pŵer i'w newid yr un pryd â diffiniad cynhwysfawr o Amaethyddiaeth a Gweithgareddau Ategol. Ei ddiben yw sicrhau bod y Bil, a'r pwerau a'r swyddogaethau sydd ynddo, yn gallu addasu i adlewyrchu unrhyw newidiadau i arferion amaethyddol o ganlyniad i newid i ddulliau rheoli tir neu dechnoleg yn y dyfodol ac i gydsymud â'r sector.

| |
|---|
| **2. A allwch ddarparu rhagor o wybodaeth ynghylch pam nad oes gennych unrhyw gynlluniau machlud ar gyfer pwerau parhad y Cynllun Taliad Sylfaenol na'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, yn enwedig gan mai'r bwriad yw i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy fod yn brif ffynhonnell gyllid i ffermwyr yn y dyfodol, a dirwyn y Cynllun Taliad Sylfaenol i ben dros y cyfnod trosglwyddo?** |
| Rwyf wedi cyhoeddi fy mwriad i gadw Cynllun y Taliad Sylfaenol tan 2023 er mwyn rhoi cymorth i ffermwyr wrth i ni gydweithio i newid i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.<br><br>Ni fyddwn yn gwneud unrhyw newidiadau nes y gallwn fod yn siŵr bod y system newydd wedi'i chynllunio'n ddigonol, ein bod wedi cynnal yr asesiadau effaith perthnasol a'n bod yn hyderus ei bod yn weinyddol ymarferol.<br><br>Bydd tystiolaeth sy'n cael ei chasglu drwy Gyd-ddylunio yn cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth ehangach (ynghyd â ffynonellau tystiolaeth eraill) ac yn ein helpu i ddylunio cynlluniau yn y dyfodol. Byddaf yn ymgynghori ar y cynllun terfynol a'r trefniadau pontio yn 2023.<br><br>Bydd penderfyniad terfynol ar y cynigion ac felly'r rheoliadau sy'n ffurfio'r cynllun yn cael eu gwneud ar ôl yr ymgynghoriad yn 2023. |
| **3. A allwch chi nodi pa asesiad yr ydych wedi'i wneud o effaith bosibl Deddf y Farchnad Fewnol (UKIMA) ar effeithiolrwydd darpariaethau'r Bil os cânt eu pasio gan y Senedd a dod yn gyfraith?** |
| Bydd Cymru'n cael llunio ei safonau ei hun y mae'n rhaid i'r cynhyrchion amaethyddol a restrir yn atodlen 1 i Ddeddf Marchnad Fewnol y DU gydymffurfio â nhw pan gânt eu marchnata yng Nghymru, a chategoreiddio, adnabod a chyflwyno carcasau gwartheg, moch a defaid.<br><br>Yn yr un modd, bydd gan Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon y pŵer i wneud eu darpariaethau eu hunain yn y materion hyn.<br><br>Fel sy'n wir o ran Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru), rydym yn glir bod Senedd Cymru'n cael deddfu heb orfod ystyried gofynion UKIMA.<br><br>Felly, bydd y safonau ar gynhyrchion amaethyddol sy'n cael eu marchnata yng Nghymru'n berthnasol waeth o ble yn y DU y daw'r cynhyrchion hynny.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi ei barn yn glir am UKIMA gydol taith Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru). Nid yw wedi newid - mewn meysydd sydd wedi'u datganoli, mae'r Senedd yn parhau i gael deddfu heb orfod ystyried gofynion UKIMA. |

**4. Mae adran 23 o'r Bil yn rhoi llwybr i denantiaid y Ddeddf Daliadau Amaethyddol ddatrys anghydfod. A yw hyn yn ddigon i sicrhau bod tenantiaid yn gallu cael cymorth amaethyddol a ddarperir o dan y Bil? A ydych chi wedi ystyried unrhyw ddarpariaeth amgen, neu ddarpariaeth ychwanegol, i hyrwyddo mynediad?**

Mae tir sy'n cael ei rentu gan denantiaid yn ffurfio rhan sylweddol o dir amaeth Cymru ac mae sicrhau bod denantiaid yn cael rhannu manteision y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) a chymorth yn y dyfodol yn bwysig i ni o ran gwireddu ein canlyniadau.

Nod y ddarpariaeth, gyda dylunio cynlluniau'n ofalus, yw sicrhau mynediad teg i ffermwyr tenant i gymorth amaethyddol o dan y Bil.

Mae'r gweithredoedd sylfaenol yn cael eu dylunio gyda'r nod y gall ffermwyr tenant eu cynnal. Byddan nhw'n helpu ffermydd i ddod yn fwy cynaliadwy. Dylen nhw fod o fewn cyrraedd rhwydd y rhan fwyaf o ffermwyr a dylen nhw allu eu hintegreiddio â'u harferion ffermio presennol. Y gweithredoedd hyn fydd y sylfaen i ffermwr allu mynd yn eu blaenau a gwneud mwy drwy ddewis gweithredoedd ychwanegol a derbyn taliadau ychwanegol.

Rydym am gynnig cymaint o hyblygrwydd ag sy'n ymarferol i ffermwyr gynnal y gweithredoedd sylfaenol mewn ffordd sy'n gweithio orau i'w fferm, gan geisio sicrhau yr un pryd y gwireddir y dibenion y rhoddir cymorth ar eu cyfer, ac sy'n cyfrannu tuag at amcanion SLM. Rydym yn cydnabod efallai na fydd rhai ffermydd yn gallu cynnal pob Gweithred Sylfaenol o'r cychwyn cyntaf (er enghraifft, oherwydd natur y fferm, ei thopograffeg neu gontractau rheoli tir). Felly, er y bydd rhai eithriadau, fel man cychwyn dylai pob fferm yn y Cynllun gynnal pob Gweithred Sylfaenol.

Rydym yn deall y gallai rhai tenantiaid ei gweld hi'n anodd cynnal y gweithredoedd opsiynol oherwydd telerau eu cytundeb tenantiaeth. Rydym wrthi'n ystyried sut y gallai landlordiaid a thenantiaid gydweithio i lofnodi cytundebau er budd y ddwy ochr, fel yr enghreifftiau yn Adolygiad Rock.

Rydym wedi sefydlu gweithgor tenantiaeth i weithio gyda ni i ystyried y rhwystrau y gallai ffermwyr tenantiaid eu hwynebu wrth gymryd rhan yn yr SFS.

Mae'r ddarpariaeth yn y Bil yn cyflwyno cyfrwng ar gyfer datrys anghydfodau ar gyfer tenantiaethau Deddf 1986. Gwnaethom ystyried a oedd angen darpariaethau tebyg yn Neddf 1995, ond ceir yn honno drefn gyffredinol eisoes ar gyfer datrys anghydfodau, felly byddai trefniadau ychwanegol yn ddiangen.

**5. Mae adran 29 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru "gyhoeddi" gofyniad drafft o dan adrannau 24(1) neu 26(1). Ble fydd hwn yn cael ei gyhoeddi? A fydd y diffyg cywirdeb mewn perthynas â chyhoeddi'r wybodaeth hon yn amharu ar hygyrchedd?**

Fel pob ymgynghoriad, bydd y gofynion a'r hysbysiadau preifatrwydd ar gyfer casglu a rhannu data yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru, a byddant ar gael yn ddwyieithog.

**6. Yn ogystal ag ystod o bwerau gwneud is-ddeddfwriaeth, mae'r Bil yn diwygio nifer o ddarnau hŷn o ddeddfwriaeth (yn y Saesneg) fel Deddf Coedwigaeth 1967. A wnaethoch chi ystyried gwneud darpariaeth ar wyneb y Bil, yn hytrach na diwygio deddfwriaeth arall, a hynny er mwyn galluogi'r darpariaethau i fod yn gwbl ddwyieithog ac i wella hygyrchedd y gyfraith i bobl Cymru?**

Mae'r Bil yn diwygio rhai trefniadau statudol sydd wedi hen ennill eu plwyf, fel y rhai yn Neddf Coedwigaeth 1967 a Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

Byddai ceisio cyflawni'r polisi trwy ddarpariaethau annibynnol mewn Mesur Senedd Cymru wedi arwain at broblemau hygyrchedd a chymhlethdod diangen.

Os mai'r hyn sy'n cael ei awgrymu yw y gellid bod wedi defnyddio'r Bil i ddileu pob darpariaeth Gymreig yn Neddf 1967, a'i hail-ddatgan gydag unrhyw newidiadau angenrheidiol, yna byddai hwnnw wedi bod yn ddarn sylweddol o waith. Yn wyneb hynny ac am y byddai wedi ailffocysu'r Bil ar draul y diwygiadau amaethyddol neu'r gwelliannau sydd y fy marn i yn angenrheidiol er mwyn rhoi fy mholisïau pwysig yn y maes hwn ar waith, dewisais y llwybr a nodir yn y Bil.

**7. Sut mae'r pwerau i ganiatáu i gorff Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ddiwygio, atal neu ddirymu trwydded cwympo coed y mae wedi'i rhoi yn rhai priodol a chymesur? Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod CNC yn defnyddio'r pwerau hyn yn briodol?**

Mae swyddogion wedi cyhoeddi canllawiau anstatudol i CNC ar sut y mae gweithredu'r pwerau hyn er mwyn sicrhau defnydd priodol a chymesur.

Mae CNC wedi datblygu papur lefel uchel sy'n adlewyrchu'r canllawiau hyn. Mae'r dogfennau hyn wedi eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru fel rhan o Ddatganiad o Fwriad y Polisi sy'n cefnogi'r Bil.

Mae CNC bellach yn datblygu canllawiau mewnol ac allanol llawn er mwyn sicrhau dull cyson a chymesur o weithredu'r pwerau hyn. Byddan nhw'n cael eu cyhoeddi i gyd-fynd â chychwyn y darpariaethau.

Bydd fy swyddogion yn cynnal adolygiad ôl-weithredu o'r ddeddfwriaeth o fewn 3 blynedd ar ôl cychwyn y diwygiadau i Ddeddf Coedwigaeth 1967.

Byddwn ni'n gweithio gyda CNC a rhanddeiliaid i gytuno ar gasgliad o ddata perthnasol ar ôl ei chychwyn er mwyn monitro effaith y ddarpariaeth goedwigaeth yn y Bil.

**8. A oes gan Weinidogion Cymru bwerau digonol i ymyrryd os canfyddir nad oedd CNC yn defnyddio'i bwerau'n briodol?**

Mae gan Lywodraeth Cymru y pwerau i roi gorchymyn i CNC mewn perthynas â gweithredu'r pwerau hyn os oes angen.

**9. Mae adran 40 yn diwygio adran 17 o Ddeddf Coedwigaeth 1967 (cosb am gwympo coed heb drwydded) i gynyddu'r ddirwy uchaf am gwympo coed yn anghyfreithlon o ddirwy lefel 4 (£2,500) i ddirwy lefel 5 (anghyfyngedig). Yn eich barn chi, a yw'r cynnydd hwn yn y gosb ariannol yn gymesur ac yn gyfiawn?**

Fel y mae Deddf Coedwigaeth 1967 ar hyn o bryd, gall person gael llai o ddirwy am gwympo coeden yn anghyfreithlon nag am dorri amod trwydded gwympo.

Eir i'r afael â'r anghysondeb hwn drwy gynyddu'r gosb ariannol am gwympo'n anghyfreithlon i'r un lefel â'r gosb orfodi bresennol am beidio â chydymffurfio ag amodau cwympo. Gallai gadael yr anghysondeb hwn heb ei ddatrys danseilio'r pwerau newydd yn y ddarpariaeth goedwigaeth.

Bydd hefyd yn rhoi hyblygrwydd i'r llysoedd osod dirwyon uwch pan geir achos difrifol a bydd yn anogaeth hefyd yn erbyn cwympo coed yn anghyfreithlon.

Mae hyn yn gyson â Lloegr, lle cafodd y terfyn ar y dirwyon hyn ei ddileu gan Atodlen 16 para 2 Deddf yr Amgylchedd 2021 (sydd heb gychwyn eto).

**10. Pa fesurau diogelu y mae'r Bil yn eu darparu i ddiogelu data personol unigolion?**

Mae darpariaethau casglu data'r Bil yn cydymffurfio â GDPR y DU a deddfwriaeth diogelu data cyffredinol.

Mae darpariaethau rhannu data'r Bil yn fanwl iawn ac yn cynnwys nifer o gyfyngiadau a mesurau diogelu, megis y dibenion y gellir casglu data ar eu cyfer a sut mae prosesu'r data.

Ni chaniateir casglu data ond er ychwanegu at un neu ragor o ddibenion mewn rhestr benodol a chyfyngedig sydd wedi'u nodi yn y Bil, megis helpu i gynyddu

cynhyrchiant, hyrwyddo tryloywder neu degwch mewn cadwyni cyflenwi bwyd-amaeth neu fonitro ffynonellau cyflenwi bwyd.

At hynny, dim ond drwy ddefnyddio gweithdrefn gadarnhaol y Senedd y caiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw reoliadau o dan y Bil sy’n cyflwyno rhwymedigaeth i ddarparu gwybodaeth. Mae hynny’n rhoi pwerau craffu sylweddol i aelodau'r Senedd mewn perthynas â'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu.

Ceir mesurau diogelu pellach. Yn unol â'n rhwymedigaeth statudol i ymgynghori â Swyddfa'r Comisiynwyr Gwybodaeth (ICO) fel Rheoleiddiwr y DU (Erthygl 36(4) o'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol) wrth ddrafftio deddfwriaeth sy'n effeithio ar brosesu data personol, mae fy swyddogion wedi ymgynghori â'r ICO ar y darpariaethau data o fewn y Bil.

Mae pob agwedd ar gasglu a diogelu data ynglŷn â'r Bil hwn yn faes trafod parhaus. Mae'r ICO yn sicrhau bod y darpariaethau'n cydymffurfio â'r egwyddorion diogelu data yn GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018. O ganlyniad, ni all Llywodraeth Cymru roi deddfwriaeth ar waith sy'n diystyru'r egwyddorion hyn ac nad yw'n parchu GDPR y DU.

**11. A allech chi egluro’r mesurau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu rhoi ar waith i sicrhau bod unigolion yn deall yn glir sut y caiff eu gwybodaeth ei defnyddio a’i phrosesu?**

Cyn casglu unrhyw ddata, byddwn yn cyhoeddi’r math o ddata fydd yn cael eu casglu, pwrpas eu casglu, sut y bydd y data'n cael eu casglu a'u defnyddio, yn ogystal â pha mor aml y byddwn yn eu casglu o dan y gofyniad.

Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru fod wedi cyhoeddi eu gofynion drafft arfaethedig o leiaf bedair wythnos cyn gofyn am y wybodaeth honno, hynny er mwyn gweld sylwadau. Rhaid i'r gofynion hyn nodi dibenion prosesu’r wybodaeth ac ni chaiff prosesu'r wybodaeth fynd yn groes i’r gofynion a bennir.

Bydd unigolion yn cael gwybodaeth preifatrwydd clir am sut y bydd Llywodraeth Cymru ac unrhyw bartneriaid yn defnyddio data.

**12. Yn unol â GDPR y DU a deddfwriaeth diogelu data arall, a fydd yn ofynnol i unigolion, gan gynnwys ffermwyr, gydsynio i brosesu eu data?**

Os bydd ffermwyr yn rhoi data yn wirfoddol, er enghraifft, trwy’r Arolwg Busnes Fferm Blynyddol, bydd angen eu caniatâd i brosesu'r data.

| |
|---|
| Mae'r Bil hefyd yn cynnwys mecanweithiau statudol a all ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr ddarparu mathau penodol o ddata at ddibenion cyfyngedig a phenodol ac er na fydd angen caniatâd ffermwyr i ddefnyddio’r mecanweithiau hyn, bydd ffermwyr yn gallu dylanwadu ar y gofynion drwy gyflwyno’u sylwadau eu hunain, drwy gynrychiolwyr rhanddeiliaid neu aelodau'r Senedd am natur ac effeithiau ymarferol y gofynion arfaethedig.<br><br>Fel y nodwyd eisoes, bydd unigolion gan gynnwys ffermwyr yn cael gwybodaeth preifatrwydd clir ynghylch sut y bydd Llywodraeth Cymru ac unrhyw bartneriaid yn defnyddio data. |
| **13. Rydym yn nodi nad yw’n bolisi nac yn bwriad ehangach gan Lywodraeth Cymru i werthu unrhyw ddata a gesglir yn unol â Phennod 1 o Ran 3 o’r Bil i drydydd partïon. Fel y cyfryw, a fyddech yn ystyried diwygio’r Bil i roi gwaharddiad penodol ar werthu data o’r fath?** |
| Er nad oes darpariaeth o fewn y Bil sy'n benodol yn gwahardd gwerthu gwybodaeth a gasglwyd i drydydd partïon, nid yw'n bolisi nac yn fwriad gan Lywodraeth Cymru i werthu data i drydydd partïon, felly nid wyf yn credu bod angen gwaharddiad penodol ar werthu data.<br><br>O dan **GDPR y DU does ond angen datgan beth fydd yn cael ei wneud gydag unrhyw ddata**, ac felly, nid yw'n ofynnol datgan beth na fydd yn cael ei wneud. Rydyn ni ond yn nodi'r hyn y gellir ei wneud gyda'r data o fewn y Bil a’r rheoliadau sy'n cyd-fynd â nhw.<br><br>Byddai cynnwys darpariaeth i wahardd gwerthu data yn benodol, yn golygu y bydd angen ystyried gweithredu darpariaethau pellach i fynd i'r afael â **phob** maes na chaiff data eu ddefnyddio. |
| **14. Byddai’r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru addasu cyfraith yr UE a ddargedwir. A yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cadw cyfraith yr UE a ddargedwir yn y meysydd y mae’r Bil hwn yn eu cwmpasu, a hynny gan ddefnyddio pwerau o dan Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (REUL)?** |
| Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y bydd yn ymateb i'r sefyllfa sydd i bob pwrpas wedi’i gorfodi arnom gan Lywodraeth y DU o ran adolygu REUL. Yn gyffredinol, ein barn yw bod cyfraith yr UE a ddargedwir, fel cyfraith yr UE o'i blaen, yn gweithio'n dda ac, o ganlyniad, heblaw am ddiwygiadau graddol i’r gyfraith yn ôl y gofyn dros amser fel gydag unrhyw gorff arall o gyfraith, nid oedd gennym unrhyw fwriad i ddiddymu, dirymu na diwygio REUL erbyn dyddiad mympwyol ar sail ideolegol. |
| **15. A allai Llywodraeth Cymru gadw cyfraith yr UE a ddargedwir yn y meysydd y mae’r Bil hwn yn eu cwmpasu, neu a yw’n dibynnu ar** |

| |
|---|
| **Lywodraeth y DU i gadw cyfraith berthnasol yr UE a ddargedwir hefyd, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, i ailadrodd y sefyllfa fel y mae ar hyn o bryd?** |
| Fel y mae wedi'i ddrafftio, mae gan y Bil REUL bwerau y gallai Llywodraeth Cymru eu harfer i gadw REUL mewn meysydd sydd wedi'u datganoli. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y bydd yn ymateb i'r Bil hwn ac yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i nodi pob REUL sydd wedi'i ddatganoli gan gynnwys yr offerynnau hynny a wnaed gan Lywodraeth a Senedd y DU. |
| **16. Pa drafodaethau sydd wedi'u cynnal gyda llywodraethau eraill y DU mewn perthynas â chyfraith yr UE a ddargedwir yn y meysydd y mae'r Bil hwn yn eu cwmpasu. Er enghraifft, a yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau sydd gan Lywodraeth y DU ar gyfer y gyfraith hon yr UE a ddargedwir?** |
| Mae rhai o adrannau Llywodraeth y DU (gan gynnwys DEFRA) wedi dechrau rhannu eu dehongliad cychwynnol o'r rhaniad yng nghyfraith yr UE a ddargedwir sydd wedi'i dargadw/datganoli â swyddogion Llywodraeth Cymru ac maent wrthi'n ystyried sut i ymateb a pha wybodaeth bellach sydd ei hangen. Mae'r gwaith hwn yn ddeinamig gan fod offerynnau REUL newydd yn cael eu nodi wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen. |
| **17. Sut y gallai cynlluniau o'r fath effeithio ar bwerau y mae'r Bil hwn yn eu rhoi i Weinidogion Cymru?** |
| Byddwn yn parhau i drafod hyn ac yr un pryd, rydym yn ystyried sut i ymateb yn y misoedd nesaf wrth i farn Llywodraeth newydd y DU ar y Bil ddod yn hysbys. |
| **18. O dan Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (REUL), gallai cyfraith yr UE a ddargedwir yn y meysydd y mae'r Bil hwn yn eu cwmpasu ddod i ben yn awtomatig ar ddiwedd 2023. Sut y gallai hynny effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i gyflawni amcanion y Bil hwn (yn benodol mewn perthynas ag ymyrraeth yn y farchnad gyhoeddus neu gymorth ar gyfer storio preifat)?** |
| Fel yr wyf wedi'i ddweud o'r blaen, byddwn yn parhau i gymryd rhan ac yr un pryd, yn ystyried sut i ymateb yn y misoedd nesaf wrth i farn Llywodraeth newydd y DU ar y Bil ddod yn hysbys. Unwaith y bydd pethau'n fwy eglur, byddwn yn gallu asesu sut y bydd y Bil REUL yn effeithio ar ymyrraeth gyhoeddus a chymorth ar gyfer storfeydd preifat.<br><br>Rydym yn bwriadu dod ag Ymyrraeth Gyhoeddus i ben a diwygio cynlluniau Cymorth ar gyfer Storfeydd Preifat mewn deddfwriaeth Gymreig y flwyddyn nesaf. |

Mae cynlluniau Ymyrraeth Gyhoeddus yn fath aneffeithlon o gymorth i’r farchnad, gyda chostau cysylltiedig uchel. Felly rydym am iddo ddod i ben am nad yw’n rhoi gwerth ein harian i ni.

Rydym hefyd yn bwriadu dileu'r gofynion ar i weithredwyr gyflwyno ernes ar gyfer contractau Cymorth Storfeydd Preifat ac i'r Asiantaeth Taliadau Gwledig gynnal archwiliadau interim o gynhyrchion mewn cynlluniau o'r fath.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru,
a'r Trefnydd

25 Tachwedd 2022

Annwyl Lesley

Bil Amaethyddiaeth (Cymru)

Diolch am ddod i gyfarfod ein Pwyllgor ddydd Llun 21 Tachwedd i roi tystiolaeth ar eich Bil Amaethyddiaeth (Cymru)..

Fel y nodais ar ddiwedd ein sesiwn, mae gennym rai cwestiynau pellach nad oeddem wedi llwyddo i'w holi, yn ogystal â thri chwestiwn dilynol mewn perthynas â sylwadau a wnaethoch yn ystod y cyfarfod. Rwy'n nodi'r rhain yn gyntaf isod.

Amseriad y defnydd o bwerau gwneud rheoliadau yn y Bil

Yn eich tystiolaeth, fe ddywedoch chi:

> *"This legislation is going to be here for several decades…" (Cofnod y Trafodion, paragraff 38)*

1. A fyddech cystal â nodi, ar gyfer pob pŵer gwneud rheoliadau yn y Bil, pryd yr ydych yn bwriadu defnyddio'r pŵer hwnnw gyntaf i wneud y rheoliadau perthnasol?

Darpariaeth machlud mewn perthynas â pharhad y Polisi Amaethyddol Cyffredin

Fe wnaethom ni ofyn a ydych wedi ystyried cynnwys darpariaeth machlud i atal y pwerau i barhau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin rhag cael eu defnyddio am gyfnod amhenodol i sicrhau trosglwyddiad i'r cynllun ffermio cynaliadwy. Yn eich ymateb,

fe ddywedoch chi:

> *"So, we did consider it, I think it's fair to say, but we decided on balance the Bill already contains the relevant powers to modify legislation that relates to CAP. And, obviously, as James has just set out very clearly, we'll exercise those powers when the sustainable farming scheme is ready, which we hope will be by 2025. So, we don't have any plans to sunset either the BPS or the CAP continuation powers at this stage." (Cofnod y Trafodion, paragraff 122).*

2. Rydym yn nodi bod y Bil yn cynnwys pwerau i addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, ond mae'n ymddangos i ni fod hynny'n wahanol i'r trosglwyddiad i'r cynllun ffermio cynaliadwy. A allwch ddarparu rhagor o wybodaeth ynghylch pam nad oes gennych unrhyw gynlluniau machlud ar gyfer pwerau parhad y Cynllun Taliad Sylfaenol na'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, yn enwedig gan mai'r bwriad yw i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy fod yn brif ffynhonnell gyllid i ffermwyr yn y dyfodol, a dirwyn y Cynllun Taliad Sylfaenol i ben dros y cyfnod trosglwyddo?

Effaith bosibl *Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020* ar y Bil, os caiff ei ddeddfu

Yn y sesiwn dystiolaeth, fe ddywedoch chi:

> *"The Counsel General has made it very clear that the UK Internal Market Act cannot and does not cut across Senedd competence to legislate in relation to non-reserved matters, which obviously this is, so I don't think it will have any impact." (Cofnod y Trafodion, paragraff 159).*

Rydym yn cytuno bod darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol, ond nid yw hyn yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r mater allweddol sy'n peri pryder inni, y credwn sy'n fater ar wahân. Er enghraifft, rydym yn derbyn na fyddai Deddf y Farchnad Fewnol wedi atal Gweinidogion Cymru rhag gwneud rheoliadau i ddiwygio'r safonau marchnata ar gyfer cynhyrchion amaethyddol yng Nghymru o dan adran 32 o'r Bil. Fodd bynnag, y pwynt sylfaenol yw, os bydd ymwahanu pellach yn y dyfodol mewn safonau marchnata o'r fath rhwng Cymru a gweddill y DU, bydd yr egwyddor o gydnabyddiaeth gilyddol yn Neddf y Farchnad Fewnol yn cael ei defnyddio a gallai effeithio ar effeithiolrwydd y gyfraith unwaith y caiff ei gwneud.

3. A allwch chi nodi pa asesiad yr ydych wedi'i wneud o effaith bosibl Deddf y Farchnad Fewnol ar *effeithiolrwydd* darpariaethau'r Bil os cânt eu pasio gan y Senedd a dod yn gyfraith?

Tenantiaethau amaethyddol

4. Mae adran 23 o'r Bil yn rhoi llwybr i denantiaid y Ddeddf Daliadau Amaethyddol ddatrys anghydfod. A yw hyn yn ddigon i sicrhau bod tenantiaid yn gallu cael cymorth amaethyddol a ddarperir o dan y Bil? A ydych chi wedi ystyried unrhyw ddarpariaeth amgen, neu ddarpariaeth ychwanegol, i hyrwyddo mynediad?

## Hygyrchedd

5. Mae adran 29 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru "gyhoeddi" gofyniad drafft o dan adrannau 24(1) neu 26(1). Ble fydd hwn yn cael ei gyhoeddi? A fydd y diffyg cywirdeb mewn perthynas â chyhoeddi'r wybodaeth hon yn amharu ar hygyrchedd?

6. Yn ogystal ag ystod o bwerau gwneud is-ddeddfwriaeth, mae'r Bil yn diwygio nifer o ddarnau hŷn o ddeddfwriaeth (yn y Saesneg) fel *Deddf Coedwigaeth 1967*. A wnaethoch chi ystyried gwneud darpariaeth ar wyneb y Bil, yn hytrach na diwygio deddfwriaeth arall, a hynny er mwyn galluogi'r darpariaethau i fod yn gwbl ddwyieithog ac i wella hygyrchedd y gyfraith i bobl Cymru?

## Coedwigaeth a chwympo coed

7. Sut mae'r pwerau i ganiatáu i gorff Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ddiwygio, atal neu ddirymu trwydded cwympo coed y mae wedi'i rhoi yn rhai priodol a chymesur? Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod CNC yn defnyddio'r pwerau hyn yn briodol?

8. A oes gan Weinidogion Cymru bwerau digonol i ymyrryd os canfyddir nad oedd CNC yn defnyddio'i bwerau'n briodol?

9. Mae adran 40 yn diwygio adran 17 o *Ddeddf Coedwigaeth 1967* (cosb am gwympo coed heb drwydded) i gynyddu'r ddirwy uchaf am gwympo coed yn anghyfreithlon o ddirwy lefel 4 (£2,500) i ddirwy lefel 5 (anghyfyngedig). Yn eich barn chi, a yw'r cynnydd hwn yn y gosb ariannol yn gymesur ac yn gyfiawn?

## Diogelu data

10. Pa fesurau diogelu y mae'r Bil yn eu darparu i ddiogelu data personol unigolion?

11. A allech chi egluro'r mesurau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu rhoi ar waith i sicrhau bod unigolion yn deall yn glir sut y caiff eu gwybodaeth ei defnyddio a'i phrosesu?

12. Yn unol â GDPR y DU a deddfwriaeth diogelu data arall, a fydd yn ofynnol i unigolion, gan gynnwys ffermwyr, gydsynio i brosesu eu data?

13. Rydym yn nodi nad yw'n bolisi nac yn bwriad ehangach gan Lywodraeth Cymru i werthu unrhyw ddata a gesglir yn unol â Phennod 1 o Ran 3 o'r Bil i drydydd partïon. Fel y cyfryw, a fyddech yn ystyried diwygio'r Bil i roi gwaharddiad penodol ar werthu data o'r fath?

Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)

14. Byddai'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru addasu cyfraith yr UE a ddargedwir. A yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cadw cyfraith yr UE a ddargedwir yn y meysydd y mae'r Bil hwn yn eu cwmpasu, a hynny gan ddefnyddio pwerau o dan Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir?

15. A allai Llywodraeth Cymru gadw cyfraith yr UE a ddargedwir yn y meysydd y mae'r Bil hwn yn eu cwmpasu, neu a yw'n dibynnu ar Lywodraeth y DU i gadw cyfraith berthnasol yr UE a ddargedwir hefyd, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, i ailadrodd y sefyllfa fel y mae ar hyn o bryd?

16. Pa drafodaethau sydd wedi'u cynnal gyda llywodraethau eraill y DU mewn perthynas â chyfraith yr UE a ddargedwir yn y meysydd y mae'r Bil hwn yn eu cwmpasu. Er enghraifft, a yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau sydd gan Lywodraeth y DU ar gyfer y gyfraith hon yr UE a ddargedwir?

17. Sut y gallai cynlluniau o'r fath effeithio ar bwerau y mae'r Bil hwn yn eu rhoi i Weinidogion Cymru?

18. O dan Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir, gallai cyfraith yr UE a ddargedwir yn y meysydd y mae'r Bil hwn yn eu cwmpasu ddod i ben yn awtomatig ar ddiwedd 2023. Sut y gallai hynny effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i gyflawni amcanion y Bil hwn (yn benodol mewn perthynas ag ymyrraeth yn y farchnad gyhoeddus neu gymorth ar gyfer storio preifat)?

Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb erbyn 8 Rhagfyr 2022.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Y Pwyllgor Busnes
—
Business Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddBusnes@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
senedd.wales/SeneddBusiness
0300 200 6565

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r
Trefnydd

11 Ionawr 2023

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Technoleg Genetig (Bridio Manwl)**

Annwyl Lesley,

Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Busnes ar 13 Rhagfyr, cytunwyd i ysgrifennu atoch i fynegi pryder ynghylch y ffaith y cafodd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Technoleg Genetig (Bridio Manwl) ei osod yn hwyr.

Fel y gwyddoch, er i'r Bil gael ei osod yn Nhŷ'r Cyffredin ym mis Mai 2022, dim ond ar 8 Rhagfyr y gwnaeth Llywodraeth Cymru osod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Gan fod y Llywodraeth yn bwriadu amserlennu dadl yn y Cyfarfod Llawn ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn ar 17 Ionawr 2023, mae hyn yn golygu y gofynnwyd i'r Pwyllgor Busnes gytuno ar 16 Ionawr fel y ddyddiad cau ar gyfer adrodd. O gofio toriad y Nadolig, prin oedd yr amser oedd ar gael i'r pwyllgorau perthnasol graffu ar y darpariaethau perthnasol yn y Bil, sef oddeutu pythefnos o fusnes.

Er bod hon o bosibl yn enghraifft eithafol o oedi cyn gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Senedd, nodwn nad yw'n enghraifft unigryw, ac y bu nifer o enghreifftiau diweddar o osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn hwyrach nag sy'n ofynnol yn ôl Rheolau Sefydlog y Senedd, ac yn sylweddol hwyr ar adegau.

Rydym hefyd yn nodi'r diffyg ymgysylltu gan Lywodraeth y DU ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol penodol hwn ac yn gwerthfawrogi'r anhawster y gall hyn ei

achosi i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'n ddyletswydd arnom i nodi'r effaith a gaiff y diffyg amser cyfyngedig sydd ar gael yn aml i bwyllgorau graffu ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol, gan gynnwys yr effaith ar eu gallu i gasglu tystiolaeth a safbwyntiau gan randdeiliaid, lle y bo'n briodol, a'u rhaglenni gwaith ehangach. Byddwch yn ymwybodol bod Aelodau wedi codi'r mater hwn droeon yn y Siambr bod nifer o bwyllgorau wedi'i godi.

Byddem yn annog yn eich annog chi, yn eich rôl fel Trefnydd, a Llywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd, i ymrwymo i sicrhau bod Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael eu gosod yn brydlon, a bod yr amser sydd ar gael i bwyllgorau'r Senedd graffu arnynt yn ddigon i'w galluogi i wneud y gwaith sydd ei angen yn ddigon manwl.

Rwy'n amgáu copi o'r llythyr hwn at y pwyllgorau y mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn yn effeithio arnynt, sef Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,

**Y Gwir Anrh Elin Jones AC**
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Eitem 17

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 20

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon